HM Crown Prosecution Service Inspectorate

# Arolygiad Sicrwydd Ardal o CPS Cymru

**Awst 2016**

HM Crown Prosecution Service Inspectorate

# Arolygiad Sicrwydd Ardal o CPS Cymru

**Awst 2016**

**Os gofynnwch i ni, gallwn ddarparu'r adroddiad hwn mewn Braille, print bras neu mewn ieithoedd heblaw Saesneg a Chymraeg.**

**I gael gwybodaeth neu ragor o gopïau o'r adroddiad hwn, cysylltwch â'n tîm cyhoeddiadau ar 020 7210 1197, neu ewch i'n gwefan: www.justiceinspectorates.gov.uk/hmcpsi**

Rhif Cyhoeddiad CP001:1212

# Cynnwys


**1 Penawdau** ... **1**
Cryfderau ... 2
Materion y mae angen mynd i'r afael â nhw ... 3
Cyd-destun a methodoleg ... 3

Rhan A: Llywodraethu a Gwerth am Arian ... 5

**2 Rhan A o'r fframwaith arolygu** ... **5**
Sgorau ... 5

**3 Perfformiad yn erbyn modiwlau gorfodol rhan A** ... **7**

Rhan B: Ansawdd Gwaith Achos a Darparu Gwaanaethau i Ddefnyddwyr ... 15

**4 Rhan B o'r fframwaith arolygu** ... **15**
Sgorau ... 15

**5 Perfformiad yn erbyn modiwlau gorfodol rhan B** ... **17**

Atodiadau ... 31

**A Rhestr Termau** ... **31**

**B Fframwaith arolygu'r Rhaglen Sicrwydd Ardal** ... **37**

**C Cyfansoddiad y sampl o ffeiliau a chanfyddiadau'r archwiliad** ... **51**

**CH Dangosyddion Perfformiad Allweddol** ... **55**

**D Crynodeb o ganlyniadau'r arolwg staff a gynhaliwyd gan HMCPSI** ... **61**

# 1 Penawdau

**1.1** Yma rydym yn nodi ein prif ganfyddiadau mewn perthynas â'n harolygiad o Ardal Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) Cymru. Roedd perfformiad yr Ardal fel y'i haseswyd yn erbyn modiwlau gorfodol y fframwaith arolygu fel a ganlyn:

| Meini prawf | Sgôr |
|---|---|
| *Rhan A: Llywodraethu a Gwerth am Arian* | |
| Rheoli adnoddau | Ardderchog |
| Rheoli perfformiad | Da |
| Effeithiolrwydd trefniadau cydweithio | Gweddol |
| **Y sgôr gyffredinol ar gyfer Llywodraethu a Gwerth am Arian** | **DA** |
| *Rhan B: Ansawdd Gwaith Achos a Darparu Gwasanaethau i Ddefnyddwyr* | |
| Cydymffurfio â gofynion datgelu | Gweddol |
| Adolygiadau a phenderfyniadau gwaith achos | Gweddol |
| Paratoi a datblygu achosion | Da |
| Cyfathrebu â dioddefwyr | Gwael |
| **Y sgôr gyffredinol ar gyfer Ansawdd Gwaith Achos a Darparu Gwasanaethau i Ddefnyddwyr** | **GWEDDOL** |

**1.2** Mae'r Ardal yn sicrhau gwerth am arian ar gyfer defnyddwyr ei gwasanaethau. Mae'n gweithredu am gost lawer is fesul achos na chyfartaledd cenedlaethol y CPS ac mae'r cyfraddau collfarnu yn y llysoedd ynadon yn amlwg yn well (87.2% co gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 83.8%). Hefyd, maent ychydig yn well yn Llys y Goron (79.9% o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 79.1%).

**1.3** Defnyddir gwybodaeth am berfformiad i nodi cryfderau a gwendidau ac ysgogi gwelliant. Cynhelir cyfarfodydd mewnol ac allanol perthnasol lle mae perfformiad yn cael y prif sylw. Mae'r Ardal yn defnyddio adroddiadau perfformiad a geir o ffynonellau dibynadwy sy'n cymharu ei pherfformiad â'r cyfartaledd cenedlaethol ac yn cymharu perfformiad rhanbarthau/unedau mewn modd priodol. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddi sicrhau ei bod yn defnyddio ei hadnoddau yn effeithiol ym mhob agwedd ar y broses erlyn.

**1.4** Nid yw'r ardal yn ei gwneud yn ofynnol i'r heddlu gydymffurfio â'i rwymedigaethau o ran pob agwedd ar y broses ddatgelu, yn benodol mewn perthynas â darparu disgrifiadau digonol ar restrau datgelu.

**1.5** Mae angen sicrhau gwelliant o ran y ffordd y mae erlynwyr yn ymdrin â'r broses ddatgelu.

**1.6** Nid yw dros hanner ffeiliau'r heddlu sy'n cyrraedd CPS Cymru o ansawdd digonol a phrin bod yr heddluoedd yn cael eu herio neu'n cael adborth, os o gwbl, ynghylch achosion o fethu â dilyn Canllawiau'r Cyfarwyddwr ar Gyhuddo[1] neu gyrraedd y Safon Genedlaethol ar gyfer Ffeiliau.[2] Yn rhy aml o lawer, nid yw'r Ardal yn adolygu achos o gwbl cyn iddo gael ei restru yn y llys a hyd yn oed pan fydd yn gwneud hynny, yn aml nid yw'r adolygiad yn ychwanegu unrhyw werth gwirioneddol.

**1.7** Ar y cyfan, mae mesurau trwybwn gryn dipyn yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol. Sicrheir y lefel hon o effeithiolrwydd er gwaethaf y diffygion a nodwyd o ran ansawdd ac amseroldeb yr adolygiad cychwynnol, ansawdd ac amseroldeb Manylion Cychwynnol Achos yr Erlyniad (IDPC) a gyflwynir i'r llys, a diffyg ymgysylltu â'r amddiffyniad. Mae'r llysoedd ynadon yn perfformio'n well na Llys y Goron ac mae'r ddau yn ymdrin â phledion euog yn well nag achosion a ymleddir. Er bod y canlyniadau yn dal i fod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, mae perfformiad Llys y Goron yn gwaethygu o ran achosion a ymleddir sy'n destun pryder, yn enwedig mewn perthynas â thrais a throseddau rhywiol difrifol, sy'n rhan sylweddol a chynyddol o'r llwyth achosion a ymleddir.

**1.8** Prin iawn oedd y dystiolaeth o gydymffurfio â Chod y Dioddefwyr a pholisïau ar gyfathrebu â dioddefwyr, ac mae perfformiad yn wael mewn perthynas ag ansawdd ac amseroldeb gohebiaeth.

## Cryfderau

**1.9** Nodwyd y cryfderau canlynol:

- i Rheolir adnoddau er mwyn sicrhau gwerth am arian.
- ii Defnyddir gwybodaeth am berfformiad i nodi cryfderau a gwendidau a llywio perfformiad.
- iii Mae Bwrdd Strategaeth yr Ardal wedi rhoi arweiniad effeithiol yn ystod cyfnod pan welwyd lleihad sylweddol mewn adnoddau.

---

1 *Director's Guidance on Charging (5ed argraffiad)*; CPS; Mai 2013. www.cps.gov.uk/publications/directors_guidance/index.html

2 *National File Standard*; CPS; Mai 2015. www.cps.gov.uk/publications/directors_guidance/dpp_guidance_5_annex_c.pdf

## Materion y mae angen mynd i'r afael â nhw

**1.10** Mae angen mynd i'r afael â'r materion canlynol:

i Mae'n rhaid i Fwrdd Strategaeth yr Ardal sicrhau ei fod yn herio'r heddlu ynghylch ei fethiant i roi trefniadau goruchwylio a didoli'r heddlu effeithiol ar waith (yn enwedig mewn perthynas ag achosion o drais ac achosion sy'n ymwneud â throseddau rhywiol difrifol) a darparu gwybodaeth/ffeiliau achos digonol (gan gynnwys dogfennau datgelu) i'r CPS (paragraff 3.27).

ii Mae'n rhaid i'r Ardal ei gwneud yn ofynnol i'r heddlu gydymffurfio â'i rwymedigaethau o ran pob agwedd ar y broses ddatgelu, yn benodol mewn perthynas â darparu disgrifiadau digonol ar restrau o ddeunydd nas defnyddiwyd (paragraff 5.12).

iii Mae'n rhaid i'r Ardal barhau i weithio gyda'r heddlu i wella ansawdd ffeiliau (a'i herio pan fo angen) (paragraff 5.22).

iv Mae'n rhaid i'r Ardal wella ansawdd adolygiadau erlynwyr o ffeiliau (paragraff 5.22).

v Mae angen i'r Ardal wella ei gwaith paratoi achosion ar gyfer y gwrandawiad cyntaf a chydymffurfio'n llawn â gofynion Trawsnewid Cyfiawnder Diannod (paragraff 5.33).

vi Mae perfformiad yr Ardal mewn perthynas â gwaith sy'n gysylltiedig â thrais a throseddau rhywiol difrifol yn destun pryder arbennig am ei fod yn faes gwaith sensitif, sy'n tyfu. Mae'n rhaid i'r Ardal ganolbwyntio ar y mater hwn a gweithio gyda'r heddlu (a'i herio os oes angen) er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag ef yn briodol (paragraff 5.33).

vii Mae'n rhaid i'r Ardal wella ei pherfformiad o ran cydymffurfio â Chod y Dioddefwyr a phob polisi perthnasol sy'n ymwneud â chyfathrebu â dioddefwyr (paragraff 5.40).

viii Mae'n rhaid i Fwrdd Strategaeth yr Ardal sicrhau y cyrhaeddir y safonau ansawdd priodol ym mhob gohebiaeth â dioddefwyr (paragraff 5.40).

## Cyd-destun a methodoleg

**1.11** Mae gan CPS Cymru swyddfeydd yng Nghaerdydd, Abertawe a'r Wyddgrug ac mae wedi'i alinio â heddluoedd Gwent, De Cymru, Dyfed-Powys a Gogledd Cymru. Mae'n cwmpasu 22 o lysoedd ynadon a chwech o ganolfannau Llys y Goron. Yn ystod y 12 mis hyd at fis Rhagfyr 2015 roedd ganddo 259 o staff cyfwerth ag amser llawn a'i gyllideb ar gyfer 2015-16 oedd £19,267,704 (a oedd yn gynnwys costau erlyn o £6,243,294 a chostau gweinyddu (costau heb eu neilltuo) o £13,024,410).

**1.12** Yn ystod y 12 mis hyd at fis Rhagfyr 2015 cwblhaodd yr Ardal 39,615 o achosion llysoedd ynadon a 5,866 o achosion Llys y Goron. Ers 2012-13, roedd llwyth achosion yr Ardal yn y llysoedd ynadon yn gyffredinol wedi gostwng 16.1%%, tra gwelwyd cynnydd o 347 o achosion o ran llwyth achosion Llys y Goron o gymharu â 2012-13 (6.3%). Gwelwyd gostyngiad bach (0.8%) yn llwyth achosion Llys y Goron eleni o gymharu â'r llynedd.

**1.13** Yn ystod yr un cyfnod llwyddodd yr Ardal i sicrhau bod 87.2% o ddiffynyddion mewn achosion yn y llysoedd ynadon a 79.9% o ddiffynyddion yn Llys y Goron yn cael eu collfarnu. Roedd perfformiad yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y llysoedd ynadon (3.4% yn well) a Llys y Goron (0.8% yn well).

**1.14** Mae cyfraddau collfarnu ar gyfer troseddau casineb (84.3% o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 83.0%) a cham-drin domestig (75.5% o gymharu â 74.2%) yn uwch na chyfartaledd cenedlaethol y CPS. Fodd bynnag, mae perfformiad CPS Cymru gryn dipyn yn is na chyfartaledd cenedlaethol y CPS ar gyfer trais (54.3% o gymharu â 57.7%) a throseddau rhywiol (73.9% o gymharu â 77.9%).

**1.15** Archwiliodd yr arolygwyr 120 o ffeiliau llysoedd ynadon a Llys y Goron a gwblhawyd rhwng mis Medi 2015 a mis Mawrth 2016. Cyfeiriwn at ganfyddiadau allweddol yr archwiliad hwn yn y rhannau perthnasol o'r adroddiad. Ceir set lawnach o ganfyddiadau'r archwiliad o'r ffeiliau, ynghyd â dadansoddiad manwl o'r sampl o ffeiliau, yn atodiad C.

**1.16** Anfonwyd arolwg at staff yn yr Ardal er mwyn gofyn iddynt am eu barn. Cyflawnwyd ein gwaith maes ym mis Mai 2016. Siaradwyd â staff y CPS a chynrychiolwyr o'r pedwar heddlu. Ceisiwyd adborth hefyd ar berfformiad yr Ardal gan asiantaethau partner, gan gynnwys y rhai sy'n ymdrin â dioddefwyr a thystion. Gwnaethom fynychu llysoedd fel sylwedyddion er mwyn asesu pa mor effeithiol roedd achos yn cael ei ddatblygu.

**1.17** Yn atodiad D rydym yn nodi data allweddol ar gyfer yr Ardal, o gymharu â pherfformiad cyfartalog cenedlaethol y CPS. Lle y bo ar gael, mae'r data diweddaraf ar gyfer y 12 mis hyd at fis Rhagfyr 2015.

**1.18** Ceir rhestr o'r termau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn atodiad A.

# Rhan A: Llywodraethu a Gwerth am Arian

## 2 Rhan A o'r fframwaith arolygu

**Yr hyn a ddisgwylir o ran perfformiad**
*Mae gan yr Ardal drefniadau llywodraethu effeithiol er mwyn sicrhau safonau uchel o ran ansawdd gwaith achos a lefelau uchel o effeithlonrwydd a gwerth am arian, a wneir drwy fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael iddi tra'n cyflawni canlyniadau llwyddiannus o ansawdd i ddefnyddwyr.*

**2.1** Yn yr adran hon rydym yn nodi ein canfyddiadau mewn perthynas â'r modiwlau hynny yn rhan A o'r fframwaith arolygu. Nodir y fframwaith, gan gynnwys yr is-feini prawf manylach, yn atodiad B. Mae Rhan A yn cynnwys cymysgedd o fodiwlau gorfodol a modiwlau nad ydynt yn rhai gorfodol. Mae faint o'r modiwlau nad ydynt yn rhai gorfodol a gaiff eu cynnwys yn cael ei bennu gan broses asesu risg sy'n ystyried y ffactorau hynny sy'n berthnasol i bob modiwl.

**2.2** Mae pob arolygiad yn ystyried o leiaf y tri modiwl gorfodol yn rhan A, sef:
- sut mae'r Ardal yn rheoli ei hadnoddau
- sut mae'r Ardal yn rheoli ei pherfformiad
- pa mor effeithiol yw'r Ardal o ran cydweithio â'i phartneriaid ym maes cyfiawnder troseddol.

Aseswyd CPS Cymru yn erbyn y modiwlau hyn yn unig. Dim ond un o'r meini prawf dewisol a sbardunwyd ganddi, sef yr un sy'n ymwneud â defnyddio'r system rheoli achosion (B7), ac, am fod yr arolygiad hwn yn rhaglen beilot penderfynwyd manteisio ar y cyfle hwn i brofi'r modiwlau gorfodol yn unig.

### Sgorau

**2.3** Asesodd yr arolygwyr pa mor dda roedd yr Ardal yn perfformio o ran bodloni disgwyliadau pob maen prawf gorfodol a'r is-feini prawf. Aseswyd perfformiad yn erbyn pob un o'r meini prawf gorfodol gan nodi a oedd yn Ardderchog, Da, Gweddol neu Wael.

**2.4** Mae'r tabl yn nodi ein canfyddiadau:

| Meini prawf | Sgôr |
|---|---|
| Rheoli adnoddau | Ardderchog |
| Rheoli perfformiad | Da |
| Effeithiolrwydd trefniadau cydweithio | Gweddol |
| **Y sgôr gyffredinol ar gyfer Llywodraethu a Gwerth am Arian** | **DA** |

# 3 Perfformiad yn erbyn modiwlau gorfodol rhan A

**3.1** Yn yr adran hon rydym yn nodi ein gwerthusiad o berfformiad yr Ardal yn erbyn y modiwlau gorfodol.

| Modiwl gorfodol | Asesiad |
|---|---|
| Rheolir adnoddau (gan gynnwys costau erlyn) er mwyn sicrhau'r lefelau uchaf posibl o effeithiolrwydd a gwerth am arian | **Ardderchog** |

## Crynodeb

*Mae'r Ardal yn sicrhau gwerth am arian ar gyfer defnyddwyr ei gwasanaethau. Mae'n gweithredu am gost lawer is fesul achos na chyfartaledd cenedlaethol y CPS ac mae'r cyfraddau collfarnu yn y llysoedd ynadon yn amlwg yn well (87.2% o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 83.8%). Hefyd, maent ychydig yn well yn Llys y Goron (79.9% o gymharu â 79.1%).*

**3.2** Yn seiliedig ar wariant fesul cyflogai cyfwerth ag amser llawn a gwariant fesul achos, mae costau'r Ardal gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn achos gwariant fesul achos, yn ystod y 12 mis hyd at fis Rhagfyr 2015, gwariodd CPS Cymru £430 fesul achos. Mae hyn yn cyfateb i tua 70% o wariant fesul achos y CPS yn genedlaethol, sef £602 ar gyfartaledd. At hynny, dros y pedair blynedd ers 2012, mae cost fesul achos yr Ardal ond wedi cynyddu 2% o gymharu â chynnydd yn y cyfartaledd cenedlaethol o bron 17% dros yr un cyfnod. Nid yw'r ffordd ofalus y mae costau wedi'u rheoli wedi amharu ar ganlyniadau mewn gwaith achos, sy'n well na'r cyfartaledd yn y rhan fwyaf o fathau o achosion (gweler paragraff 1.14).

**3.3** Mae Bwrdd Strategaeth yr Ardal yn dangos ymwybyddiaeth o faterion rheoli perfformiad ac yn tynnu sylw'n barhaus at yr angen i weithio'n effeithlon a lleihau'r angen i ddyblygu gwaith ar ffeiliau achos. Er enghraifft, adlewyrchir y dull hwn o weithredu yn y penderfyniadau cynnar a wneir ar ddichonoldeb achosion (yn enwedig yn y llysoedd ynadon); mae cyfran yr achosion y rhoddir y gorau iddynt mewn trydydd gwrandawiad neu wrandawiad dilynol ychydig dros 10% yn is (yn well) na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae hyn yn lleihau'r effaith ar adnoddau cyfyngedig yn yr Ardal a'i heddluoedd partner drwy sicrhau y rhoddir y gorau i baratoi achosion yn gynnar os nad oes tebygolrwydd realistig y ceir collfarn.

**3.4** Cyflawnwyd y perfformiad hwn sy'n uwch na'r cyfartaledd (cost fesul achos/cyfradd collfarnu) yn ystod cyfnod pan wynebodd yr Ardal ddwy her sylweddol, sef (a) gostyngedig yn nifer y staff a (b) lleihad sylweddol yn ei hystad.

a Mae nifer y staff wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Mae nifer yr erlynwyr wedi gostwng 15.2% o gymharu â gostyngiad o 9.9% yn genedlaethol. Fodd bynnag, er bod nifer yr achosion a ymleddir yn y llysoedd ynadon wedi cynyddu'n

genedlaethol, mae'r nifer wedi aros yn gymharol gyson yn achos CPS Cymru. Mae nifer yr achosion a ymleddir yn Llys y Goron wedi cynyddu yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol, fwy neu lai, dros y ddwy flynedd flaenorol. O ganlyniad i'r symudiadau hyn mae nifer yr achosion a ymleddir fesul erlynydd yn dal i fod yn is yn achos CPS Cymru na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y llysoedd ynadon, ond mae bellach, i bob pwrpas, yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol yn Llys y Goron.

b Mae nifer y swyddfeydd wedi gostwng o wyth i dair (Caerdydd, Abertawe a'r Wyddgrug bellach). Mae'r lleihad hwn yn ystad yr Ardal wedi golygu adleoli staff a chyflwyno prosesau gweithio newydd gydag asiantaethau partner.

**3.5** Er ei bod yn amlwg bod heriau yn gysylltiedig â hwy, mae Bwrdd Strategaeth yr Ardal wedi ceisio sicrhau bod arbedion effeithlonrwydd yn deillio o'r newidiadau hyn. Er enghraifft, mae erbyn hyn wedi llwyddo i roi strwythur rheoli mwy gwastad ar waith. Bellach mae dau Ddirprwy Brif Erlynydd y Goron (DCCP) sy'n uniongyrchol atebol i Brif Erlynydd y Goron (CCP) ac mae ganddynt hwy yn eu tro reolwyr cyfreithiol lefel D sy'n uniongyrchol atebol iddynt. Mae hyn yn ddigon i sicrhau bod ffocws gweithredol a ffocws strategol yn parhau i fod wedi'u rhannu, gyda llinellau atebolrwydd clir.

**3.6** Rheolir CPS Cymru ar sail ddaearyddol yn hytrach na sail swyddogaethol. Felly, mae'r ddau Ddirprwy Brif Erlynydd y Goron yn rheoli rhannau gwahanol o'r Ardal drwy Dimau Rheoli Rhanbarthol. Mae'r strwythur hwn yn gweithio'n dda i'r Ardal.

**3.7** Darparodd ein harolwg staff adborth cadarnhaol, ar y cyfan, ar y newidiadau hyn a'r rheolwyr yn gyffredinol: roedd 58.6% o'r rhai a ymatebodd yn cytuno bod y mentrau newydd yn cael eu gweithredu'n dda yn yr Ardal; roed 58.6% yn cytuno bod uwch reolwyr yn rhoi arweiniad effeithiol yn yr Ardal; yn cytuno bod uwch reolwyr yn rhoi arweiniad effeithiol yn yr Ardal; ac roedd 61.4% o'r farn bod rheolwr yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â staff yn effeithiol.

**3.8** Mae Bwrdd Strategaeth yr Ardal wedi dangos gwaith cynllunio effeithiol gyda Chynllun Lleihau Costau Strwythuredig, y bwriadwyd iddo leihau nifer y staff mewn ffordd strwythuredig er mwyn helpu'r Ardal i gyflawni o fewn ei chyllideb lai tra'n cadw'r cymysgedd cywir o staff i ddarparu ei gwasanaeth. Mabwysiadwyd dull hyblyg o weithredu o ran yr angen i leihau nifer y staff, er enghraifft drwy ryddhau rhai a oedd wedi'u lleoli o fewn CPS Cymru i wneud gwaith i CPS Llundain. Ers hynny mae nifer o staff wedi cael cynnig swyddi llawn amser yn Llundain (heb orfod symud yno), sy'n ddull gweithredu a all gael ei ymestyn.

**3.9** Mae trefniadau monitro cadarn ar waith i adolygu a rheoli lefelau gwariant. Yn 2014-15 gorwariodd yr Ardal £617,187 ond llwyddodd i leihau'r swm hwnnw i £120,206yn 2015-16. Mae'r gorwariant presennol hwn o ganlyniad i wariant ar erlyn achosion a

oedd £133,695 yn fwy na'r gyllideb, a oedd i'w briodoli yn bennaf i Achosion Costau Uchel Iawn a ad-delir yn nes ymlaen gan Bencadlys cenedlaethol y CPS. Arweiniodd y gwariant gweinyddu heb ei neilltuo ar gyfer 2015-16 at danwariant o £13,490. . Dros y ddwy flwyddyn ariannol bu gostyngiad o £629,447, (4.6%) yng ngwariant heb ei neilltuo'r Ardal. Mae'r Ardal yn monitro ei gwariant fel rhan o'r drefn ac mae'n eitem sefydlog yng nghyfarfodydd Bwrdd Strategaeth yr Ardal er mwyn sicrhau y parheir i roi sylw ar lefel uchel i'r mater hwn.

**3.10** Mae'n amlwg bod yr effaith y mae costau erlyn yn ei chael ar yr Ardal yn cael ei chydnabod a chwblheir rhagolygon misol gan unedau gan ddefnyddio'r systemau olrhain cyflogau a gwariant a rhagamcanion o ran costau erlyn. Mae proses fwy canolig ar gyfer rhagweld costau erlyn, sy'n anelu at fod yn fwy manwl gywir, hefyd wedi'i rhoi ar waith yn ddiweddar. Mae effeithiolrwydd y broses hon yn cael ei fonitro ar hyn o bryd drwy Reolwr Busnes yr Ardal.

**3.11** Ategir ceisiadau i Bencadlys y CPS am arian ychwanegol i dalu am weithgareddau neu fentrau penodol gan achosion busnes a gostiwyd yn briodol. Rhoddwyd enghreifftiau o'r rhai a gymeradwywyd ym mlwyddyn ariannol 2015-16 i ni, megis arian er mwyn helpu'r Ardal i ddatblygu ei model gweithredu trais a throseddau rhywiol difrifol a'i hymagwedd at y fenter Rheoli Achosion yn Well. Mae dyraniadau cyllidebol ar gyfer Achosion Costau Uchel Iawn a'r Ddeddf Elw Troseddau hefyd wedi'u derbyn drwy gydol y flwyddyn mewn ymateb i geisiadau gan yr Ardal.

**3.12** Yn y flwyddyn ariannol hyd at fis Rhagfyr 2015 gwariodd CPS Cymru £369,378 ar asiantau sy'n gyfreithwyr (y mae'n cydnabod ei fod yn uwch na gwariant y flwyddyn flaenorol). Mae hyn wedi galluogi erlynwyr, a fyddai fel arall yn cyflwyno treialon, i gynnal adolygiadau gwaith achos. Mae'r Ardal yn adolygu'r defnydd a wna o staff mewnol yn barhaus (mae'r defnydd o erlynwyr cyswllt 6% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol) ac mae cynlluniau hefyd i recriwtio cyfreithwyr ar radd Erlynydd y Goron a chynyddu'r nifer o gyfreithwyr o'r fath, a fydd yn ei gwneud yn bosibl i leihau'r defnydd o asiantau sy'n gyfreithwyr.

**3.13** Roedd 15.7 o Eiriolwyr y Goron cyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi yn y 12 mis hyd at fis Rhagfyr 2015, o gymharu â 17.7 yn 2014-15. Cynyddodd y defnydd ohonynt ar waith Erlynwyr y Goron rhwng 2012-13 a 2014-15, ond lleihaodd 8.0% yn y 12 mis hyd at fis Rhagfyr 2015, sy'n golygu bod yr Ardal bellach 2.5% islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, mae arbedion sy'n gysylltiedig ar Erlynwyr y Goron, pan y'u hasesir yn erbyn costau cyflogau llawn Erlynwyr y Goron, yn dangos, ers 2014-15, fod CPS Cymru wedi bod yn gweithredu gan wneud elw tybiannol.

| Modiwl gorfodol | Asesiad |
|---|---|
| Dadansoddir data perfformiad allweddol yr Ardal yn effeithiol ac fe'u defnyddir i lywio'r broses o neilltuo adnoddau, er mwyn nodi cryfder a gwendidau'r Ardal yn fanwl ac ysgogi gwelliant | **Da** |

## Crynodeb

*Mae'r Ardal yn defnyddio gwybodaeth am berfformiad i nodi cryfderau a gwendidau ac ysgogi gwelliant. Cynhelir cyfarfodydd mewnol ac allanol perthnasol lle mae perfformiad yn cael y prif sylw. Mae'r Ardal yn defnyddio adroddiadau perfformiad a geir o ffynonellau dibynadwy sy'n cymharu ei pherfformiad â'r cyfartaledd cenedlaethol ac yn cymharu perfformiad rhanbarthau/unedau mewn modd priodol.*

**3.14** Mae'r cyfrifoldebau am berfformiad wedi'u diffinio'n glir yn yr Ardal. Mae Bwrdd Strategaeth yr Ardal yn canolbwyntio ar wella perfformiad a monitro llwyddiant. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob mis a thrafodir data perfformiad yn fanwl yn dilyn cyhoeddi canlyniadau chwarterol. Mae'r Timau Rheoli Rhanbarthol, sy'n gyfrifol am berfformiad yn lleol, yn nodi achosion sylfaenol materion a godir ac yn ysgogi gwelliant ar lefel weithredol.

**3.15** Mae Swyddog Perfformiad yr Ardal yn rhoi adroddiadau misol a naratif i Fwrdd Strategaeth yr Ardal sy'n tynnu sylw at agweddau ar waith CPS Cymru lle mae perfformiad wedi dirywio neu lle y ceir materion sy'n dal i achosi pryderon. Mae dadansoddiad y Swyddog Perfformiad yn nodi unedau gweithredol yr Ardal sydd wedi cael effaith benodol ar y canlyniadau yn gyffredinol ac yn rhoi arweiniad clir o ran ble y dylid targedu ymdrechion er mwyn gwella perfformiad. Mae'r Swyddog Perfformiad hefyd yn defnyddio cronfa ddata genedlaethol y CPS i nodi tueddiadau.

**3.16** Mae gwybodaeth am berfformiad ar gael i bob aelod o staff yr Ardal ar wefan fewnol CPS Cymru gyda chrynodeb misol o berfformiad yr Ardal yn erbyn ffigurau cenedlaethol a'i safle mewn perthynas â nifer o fesurau wedi'u pwysoli'n uchel. Defnyddir ymweliadau â swyddfeydd gan Brif Erlynydd y Goron a Rheolwr Busnes yr Ardal a chyfarfodydd tîm hefyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am berfformiad. Nododd ein harolwg staff fod 78.7% o'r farn eu bod yn deall ble mae eu Hardal a'u huned arni o gymharu â pherfformiad Ardaloedd ac unedau eraill y CPS. Fodd bynnag, nododd gweithdai diweddar yn yr Ardal bryderon ynghylch y ffaith nad oedd cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn aml ac nad oedd y staff yn cael digon o amser i ystyried y wybodaeth hon.

**3.17** Mae'r Ardal yn rhoi blaenoriaeth uchel i ansawdd data. Er gwaethaf yr effaith ar adnoddau staff, sefydlodd system i wirio cywirdeb data a gaiff eu mewnbynnu i'r system rheoli achosion yn drylwyr wedyn, wrth i weithgarwch monitro ddangos gwelliant, cynhaliwyd y gwiriadau yn llai aml.

**3.18** Er bod gwybodaeth am berfformiad yn cael ei defnyddio i nodi cryfderau a gwendidau, mae agweddau ar waith achos lle nad yw wedi sicrhau gwelliant sylweddol na pharhaus. Er enghraifft, mae angen i'r gyfradd gollfarnu ar gyfer trais a throseddau rhywiol difrifol wella, mae'n rhaid i'r Ardal sicrhau bod yr heddlu yn rhoi gwybodaeth briodol i'w chyfreithwyr fel y gallant gydymffurfio'n effeithiol â'i rwymedigaethau o ran datgelu (gweler pennod 5) ac mae'n rhaid gwella'r gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr (gohebiaeth ysgrifenedig).

**3.19** Er bod yr Ardal yn dangos ymwybyddiaeth o'r gwendidau hyn, a'i bod wedi cyflwyno nifer o fentrau gan gynnwys adolygiad o'r Uned Cyswllt Dioddefwyr a'r uned Trais a Throseddau Rhywiol Difrifol (RASSO), mae perfformiad yn parhau i fod yn wan. Nid yw CPS Cymru wedi cyflawni'r canlyniadau gwell angenrheidiol ac mae angen i'r Ardal adolygu ei dull gweithredu er mwyn ystyried beth arall y gall ei wneud a fydd yn fwy effeithiol.

**3.20** Mae'r Ardal yn edrych ar y gwahaniaethau rhwng yr unedau a'r rhanbarthau er mwyn cael syniadau i wella perfformiad. Mae cynnal adolygiad i edrych ar gydymffurfiaeth â'r rhwymedigaeth i fewnbynnu data Mesurau Effeithlonrwydd Adnoddau, gan ddisgwyl i'r unedau sy'n perfformio'n well nodi gwelliannau posibl, yn enghraifft o hyn.

**3.21** Mae staff yn manteisio ar gyfleoedd rhwydweithio er mwyn nodi arfer da. Er enghraifft, mae cyswllt rhwng Swyddogion Perfformiad Ardaloedd ar draws y CPS yn helpu i sicrhau cysondeb o ran y data ffynhonnell ar gyfer gwybodaeth am berfformiad a ddefnyddir yn yr Ardaloedd ac ar gyfer cyfarfodydd partner.

| Modiwl gorfodol | Asesiad |
|---|---|
| Mae'r Ardal yn cael dylanwad ar bartneriaid ac mae gweithio cydgysylltiedig yn effeithiol ac yn gwella canlyniadau i ddefnyddwyr | **Gweddol** |

## Crynodeb

*Mae'r Ardal yn gweithio'n agos gyda'i phartneriaid ym maes cyfiawnder troseddol ac wedi llwyddo i wella canlyniadau o ran sawl agwedd ar berfformiad drwy fentrau o fewn y system cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, ceir agweddau sydd angen eu gwella ymhellach.*

**3.22** Cynrychiolir yr Ardal gan uwch reolwyr mewn byrddau cyfiawnder troseddol lleol a chyd-fyrddau cyflenwi eraill. Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod cydberthynas adeiladol â'r CPS ac roedd tystiolaeth o gydberthnasau da ag uwch reolwyr, gyda'r Ardal yn cael ei chanmol gan randdeiliaid am ei dull cadarnhaol o weithredu. Ar y cyfan mae hunaniaeth gyffredin ymhlith asiantaethau cyfiawnder troseddol yng Nghymru, sydd o fudd i bob un o'r asiantaethau, ac mae sawl menter yn cael ei chynnal ar hyn o bryd gyda'r nod o wella perfformiad. Er enghraifft, mae'r CPS yn gweithio'n agos gyda'r heddlu i dreialu system fonitro a fydd yn rhoi adborth ar ansawdd y ffeiliau a gyflwynir; ac mae'n datblygu cynllun cyhuddo lleol gyda Heddlu De Cymru, gan obeithio y bydd yn darparu gwasanaeth gwell sy'n fwy atebol yn lleol.

**3.23** Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd ar lefel strategol rhwng Prif Erlynydd y Goron a Phrif Gwnstabliaid y pedwar heddlu yng Nghymru, â'r llysoedd a'r farnwriaeth, ac mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan yn cyfarfod yn rheolaidd hefyd. Mae Dirprwy Erlynwyr y Goron yn cydgysylltu â'r Prif Gwnstabliaid Cynorthwyol ac yn mynd i gyfarfodydd byrddau cyfiawnder troseddol lleol ac mae parodrwydd i fynd i'r afael â materion sy'n destun pryder. Un enghraifft oedd y drafodaeth a gynhaliwyd ynghylch yr ôl-groniadau a oedd yn gysylltiedig â'r CPS yn rhoi cyngor ar gyhuddo mewn achosion a oedd yn ymwneud â thrais a throseddau rhywiol difrifol. Defnyddiodd yr Ardal adnoddau ychwanegol i fynd i'r afael â'r ôl-groniadau hyn a bu'r partneriaid cyfiawnder troseddol yn cydweithio i fonitro'r sefyllfa. Mae rheolwyr gweithredol rhanbarthol yn mynd i gyfarfodydd â'r heddlu er mwyn edrych ar berfformiad lleol a sicrhau gwelliannau (gweler paragraff 3.27).

**3.24** Roedd Bwrdd Strategaeth yr Ardal o'r farn bod cyfarfodydd Rheoli Perfformiad y Tîm Erlyn, a gynhelir bob mis ledled yr Ardal, yn ffordd effeithiol o reoli perfformiad rhwng y CPS a'r heddlu. Mae'r CPS yn darparu pecyn data ar gyfer y cyfarfodydd hyn sy'n berthnasol i'r rhanbarth ac sy'n ymdrin ag amrywiaeth o gyd-fesurau perfformiad allweddol. Mae dadansoddiad i nodi unrhyw agwedd ar y gwaith nad yw'n cyrraedd y safonau disgwyliedig, wedi'i rannu'n achosion unigol ac asesiad o'r hyn a aeth o'i le fel y gellir dysgu gwersi. Mae'r cyfarfodydd yn ymdrin â pherfformiad yn y llysoedd ynadon a Llys y Goron ac yn ystyried materion sy'n codi o fentrau Trawsnewid Cyfiawnder Diannod a Rheoli Achosion yn Well.

**3.25** Cynrychiolir yr Ardal mewn nifer o gyd-gyfarfodydd asiantaethau gan reolwyr ag awdurdod gwneud penderfyniadau priodol ac mae hyn yn cyfrannu at effeithiolrwydd y cyfarfodydd hyn. Mae'r rhain yn cynnwys y byrddau cyfiawnder troseddol lleol a grwpiau megis Bwrdd y Rhaglen Effeithlonrwydd Cyfiawnder Troseddol, sy'n cyfarfod i ystyried data perfformiad allweddol a dwyn partneriaid i gyfrif.

**3.26** Mae CPS Cymru wedi llwyddo i sicrhau cynnydd cyson yn nifer y pledion euog yn y gwrandawiad cyntaf (68.0% i 74.9%) yn y llysoedd ynadon ers 2012-13 a bu'n gyson well na'r cyfartaledd cenedlaethol. Gwnaeth hyn drwy weithio'n agos gyda'r heddlu a'r llysoedd.

**3.27** Er bod cydberthnasau â phartneriaid yn effeithiol ar y cyfan, rydym wedi nodi materion penodol sy'n dangos bod angen adolygu a gwella dull yr Ardal o weithio mewn partneriaeth. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â gwaith ar achosion sy'n ymwneud â thrais a throseddau rhywiol difrifol, datgelu ac ansawdd ffeiliau'r heddlu.

a Cawsom ein hysbysu mai dim ond mewn 50% of % o achosion a oedd yn ymwneud â thrais a throseddau rhywiol difrifol, a atgyfeiriwyd i gael cyngor cyn cyhuddo, y cafwyd cyhuddiad gan yr Ardal mewn gwirionedd. Mae hyn yn awgrymu bod problemau yn gysylltiedig ag effeithiolrwydd trefniadau goruchwylio a didoli'r heddlu. Mae'r Ardal wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion hyn ond nid yw'r rhain wedi llwyddo i wella canlyniadau eto. Mae'n golygu bod adnoddau prin y CPS wedi'u defnyddio yn adolygu achosion lle y gallai ac y dylai'r heddlu fod wedi penderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau pellach. Mae ein hadolygiad thematig o unedau Trais a Throseddau Rhywiol Difrifol y CPS[3] (a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2016) yn nodi bod angen i'r CPS fynd i'r afael â'r mater hwn.

b Mae'n arfer lleol yn yr Ardal nad yw disgrifiadau annigonol a ddarperir gan yr heddlu ar y rhestr o ddeunydd nas defnyddiwyd yn cael eu herio. Yn lle hynny, anfonir y dogfennau nas defnyddiwyd at yr Ardal fel rhan o'r drefn. Mae'r ffaith nad yw rhestrau yn cael eu llunio'n gywir yn golygu bod angen i'r cyfreithiwr fwrw golwg dros bob eitem, sy'n ychwanegol at yr amser a gymerir i baratoi achosion. Nid yw'n cydymffurfio â'r fframwaith statudol ar gyfer datgelu na Trawsnewid Cyfiawnder Diannod (gweler pennod 5).

c Cydnabyddir ar lefel uwch reolwyr yn yr Ardal fod ansawdd ffeiliau'r heddlu yn broblem fawr ac mae hynny'n amlwg o'r ffeiliau a archwiliwyd gennym. Fel gyda gwaith ar achosion sy'n ymwneud â thrais a throseddau rhywiol difrifol mae'r Ardal wedi datblygu sawl menter i wella ansawdd ffeiliau, ond ar adeg ein harolygiad nid oedd y rhain wedi arwain at welliant eto. Mae methu â chyrraedd y Safon Genedlaethol ar gyfer Ffeiliau yn golygu bod yn rhaid i'r Ardal wneud mwy o waith i fynd ar ôl eitemau sydd ar goll a gall atal achosion rhag cael eu rheoli'n effeithlon (gweler pennod 5).

3 *Thematic Review of the CPS Rape and Serious Sexual Offences Units*; HMCPSI; Chwefror 2016. www.justiceinspectorates.gov.uk/hmcpsi/inspections/thematic-review-of-the-cps-rape-and-serious-sexual-offences-units/

| Y mater y mae angen mynd i'r afael ag ef |
| --- |
| Mae'n rhaid i Fwrdd Strategaeth yr Ardal sicrhau ei fod yn herio'r heddlu ynglŷn â'i fethiant i roi trefniadau effeithiol goruchwylio a didoli'r heddlu ar waith (yn enwedig mewn perthynas â thrais ac achosion sy'n ymwneud â throseddau rhywiol difrifol) a darparu gwybodaeth/ffeiliau achos digonol (gan gynnwys dogfennau datgelu) i'r CPS. |

# Rhan B: Ansawdd Gwaith Achos a Darparu Gwaanaethau i Ddefnyddwyr

## 4 Rhan B o'r fframwaith arolygu

**Yr hyn a ddisgwylir o ran perfformiad**
*Mae'r Ardal yn gwneud penderfyniadau cadarn, mae'n paratoi ac yn cyflwyno achosion yn effeithiol ac mae'n gwella canlyniadau ac yn darparu gwasanaeth o safon i ddefnyddwyr.*

**4.1** Yn yr adran hon rydym yn nodi ein canfyddiadau mewn perthynas â'r modiwlau hynny yn rhan B o'r fframwaith arolygu. Mae Rhan B o'r fframwaith hefyd yn cynnwys cymysgedd o fodiwlau gorfodol a modiwlau nad ydynt yn rhai gorfodol. Mae faint o'r modiwlau nad ydynt yn rhai gorfodol a gaiff eu cynnwys yn cael ei bennu gan broses asesu risg sy'n ystyried y ffactorau hynny sy'n berthnasol i bob modiwl.

**4.2** Mae pob arolygiad yn ystyried o leiaf y pedwar modiwl gorfodol yn rhan B, sef:
- cydymffurfiaeth yr Ardal â'i dyletswyddau o ran datgelu deunydd nas defnyddiwyd
- adolygiadau a phenderfyniadau gwaith achos
- paratoi a datblygu achosion
- cyfathrebu â dioddefwyr.

Aseswyd CPS Cymru yn erbyn y modiwlau hyn yn unig. Dim ond un o'r meini prawf dewisol a sbardunwyd ganddi, sef yr un sy'n ymwneud â defnyddio'r system rheoli achosion (B7), ac, am fod yr arolygiad hwn yn rhaglen beilot penderfynwyd manteisio ar y cyfle hwn i brofi'r modiwlau gorfodol yn unig.

### Sgorau

**4.3** Asesodd yr arolygwyr pa mor dda roedd yr Ardal yn perfformio o ran bodloni disgwyliadau pob maen prawf gorfodol a'r is-feini prawf. Aseswyd perfformiad yn erbyn pob un o'r meini prawf gorfodol gan nodi a oedd yn Ardderchog, Da, Gweddol neu Wael.

**4.4** Mae'r tabl yn nodi ein canfyddiadau:

| Meini prawf | Sgôr |
|---|---|
| Cydymffurfiaeth â gofynion datgelu | Gweddol |
| Adolygiadau a phenderfyniadau gwaith | Gweddol |
| Paratoi a datblygu achosion | Da |
| Cyfathrebu â dioddefwyr | Gwael |
| **Y sgôr gyffredinol ar gyfer Ansawdd Gwaith Achos a Darparu Gwasanaethau i Ddefnyddwyr** | **GWEDDOL** |

# 5 Perfformiad yn erbyn modiwlau gorfodol rhan B

| Modiwl gorfodol | Asesiad |
|---|---|
| Mae'r Ardal yn cydymffurfio â'i dyletswyddau datgelu mewn perthynas â deunydd nas defnyddiwyd | **Gweddol** |

### Crynodeb

*Mae angen i'r Ardal sicrhau bod y broses ddatgelu yn destun proses sicrhau ansawdd drylwyr er mwyn gwella perfformiad, gan gynnwys cymryd camau er mwyn sicrhau bod yr heddlu yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau ei hun (yn enwedig o ran darparu disgrifiadau digonol ar restrau o ddeunydd nas defnyddiwyd).*

**5.1** Mae'r Ardal yn cydnabod bod problemau yn gysylltiedig â chydymffurfiaeth yr heddlu â gofynion datgelu (gan gynnwys cyflwyno rhestrau o ddeunydd nas defnyddiwyd fesul un i'r CPS) ac wedi ceisio gwella perfformiad o ran datgelu yn fewnol a chyda'r heddlu, gan gynnwys: ychwanegu adran ddatgelu at gynllun Sicrhau Ansawdd Unigol Cenedlaethol y CPS; darparu hyfforddiant i'r heddlu ar sawl achlysur; sicrhau bod datgelu yn eitem ar yr agenda mewn cyfarfodydd misol Rheoli Perfformiad y Tîm Erlyn rhwng yr heddlu a'r CPS; ac o fis Mai 2016, mae Hyrwyddwr Datgelu'r Ardal a Phwyntiau Cyswllt Unigol dynodedig yr Ardal ar gyfer Datgelu yn cynnal prosesau hap-samplu thematig o achosion bob chwarter.

**5.2** Fodd bynnag, dengys ein gwaith archwilio ffeiliau fod angen rhagor o fentrau o hyd er mwyn gwella perfformiad.

| | Ardderchog | Da | Gweddol | Gwael |
|---|---|---|---|---|
| Ansawdd cyffredinol gweithgarwch ymdrin â deunydd nas defnyddiwyd a gyflawnwyd gan y CPS | 0% | 36.2% | 45.7% | 18.1% |

**5.3** Ategir y broses ddatgelu gan y gofyniad i ddarparu trywydd archwilio o gamau gweithredu a phenderfyniadau ar y daflen cofnodi datgeliadau (DRS). Dangosodd ein gwaith archwilio ffeiliau mai dim ond mewn ychydig o dan hanner yr achosion a archwiliwyd (49.5%) y cwblhawyd y daflen cofnodi datgeliadau yn llawn ac yn gywir a nododd yr arolygwyr nad oedd y daflen cofnodi datgeliadau wedi cyrraedd y safon ofynnol yn rhannol hyd yn oed mewn 29.7% o achosion.

**5.4** Dim ond mewn ychydig dros hanner yr achosion a archwiliwyd (53.5%) roedd y datgeliad yn amserol ac mae angen i hyn wella.

**5.5** Er i'n hadolygiad o ffeiliau achos nodi bod yr erlynydd wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i ddatgelu'n barhaus (gan gynnwys arnodi'r rhestr yn gywir) mewn 76.1% o achosion, ni chyrhaeddwyd y safon briodol mewn 4.3% o achosion.

**5.6** Un agwedd benodol sy'n destun pryder yw'r ffaith nad yw'r heddlu yn cael ei herio ynglŷn â darparu rhestrau datgelu annigonol o ddeunydd nas defnyddiwyd. Er mwyn i broses ddatgelu fod yn effeithiol mae angen i'r heddlu ddarparu disgrifiadau digonol o'r deunydd nas defnyddiwyd mewn achos i'r CPS a dylai'r erlynydd wedyn adolygu'r disgrifiadau hynny a defnyddio'r prawf ar gyfer datgelu os bydd o'r farn bod y disgrifiad yn ddigonol. Os bydd y disgrifiad yn annigonol dylai ofyn am ragor o wybodaeth neu archwilio'r ddogfen dan sylw, a dylai hefyd roi adborth i'r heddlu.

**5.7** Mae'r parodrwydd hwn i dderbyn rhestrau annigonol yn symud y baich o wirio'r eitemau o ddwylo swyddogion datgelu'r heddlu i'r cyfreithiwr adolygu. Yn ogystal â bod yn ddull gweithredu rydym yn anghytuno ag ef, nid yw'n cyd-fynd â'r fframwaith statudol ar gyfer datgelu nac egwyddorion Trawsnewid Cyfiawnder Diannod.

**5.8** Os nad yw'r disgrifiadau o safon ddigonol mae'r amddiffyniad yn cael ei atal rhag gweld gwybodaeth a allai fod yn bwysig, a all ei ysgogi i ofyn i'r Ardal am ragor o wybodaeth neu gyflwyno ceisiadau i'r llys yn gofyn am ddatgelu dogfennau penodol.

**5.9** Mae'n amlwg nad yw'r heddlu yn darparu digon o wybodaeth i alluogi'r erlynydd i gynnal adolygiad datgelu ystyrlon ar sail y rhestr yn unig ac, felly, mae'n rhaid i'r erlynydd archwilio'r eitemau a restrir. Mae'r gwaith diangen hwn yn cynyddu'r risg y gallai cyfreithiwr adolygu sy'n cynnal yr adolygiad datgelu wneud camgymeriad, am fod angen ystyried mwy o ddogfennau ym mhob adolygiad o ffeiliau.

**5.10** Datgelodd ein harchwiliad o ffeiliau achos mai dim ond mewn 41.4% o'r achosion y cydymffurfiodd yr heddlu a'i rwymedigaethau o ran datgelu yn llawn a'r mwyaf cyffredin oedd methu â darparu disgrifiad digonol o'r eitemau ar y rhestr o ddeunydd nas defnyddiwyd. Nododd ein data ein hunain nad yw'r Ardal yn herio'r heddlu i gydymffurfio â'i rwymedigaethau.

**5.11** Yn ystod y broses arolygu nodwyd y materion canlynol sy'n destun pryder:

a Fel rhan o'n harchwiliad o ffeiliau achos nodwyd gennym ffeil wedi'i chwblhau lle nad oedd eitem y gellir ei datgelu wedi'i throsglwyddo i'r amddiffyniad, yn groes i ofynion Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 (yn ffodus, roedd y diffynnydd wedi'i ryddfarnu);

b Nododd yr Ardal fethiant difrifol o ran datgelu gwybodaeth yr hysbyswyd cynrychiolwyr yr amddiffyniad amdani ac ar ddechrau 2016 cyflwynwyd apêl i'r Llys Apêl mewn perthynas â'r methiant ymddangosiadol hwn i ddatgelu gwybodaeth. Roedd yr achos yn cynnwys dau ddiffynnydd a oedd wedi'u collfarnu o un achos o fwrgleriaeth waethygedig (a oedd wedi'u dedfrydu i bum mlynedd ac 11 mlynedd yn y carchar). O ran yr achos hwn, cydnabu'r Ardal, pe bai'r eitem wedi cael ei disgrifio'n gywir gan y swyddog datgelu, y byddai sylw'r erlynydd wedi'i dynnu at y ffaith ei bod yn cynnwys gwybodaeth y dylid bod wedi'i datgelu i'r amddiffyniad.

**5.12** Mae angen i'r Ardal sicrhau bod y broses ddatgelu yn destun proses sicrhau ansawdd drylwyr.

### Y mater y mae angen mynd i'r afael ag ef

Mae'n rhaid i'r Ardal fynnu bod yr heddlu yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau o ran pob agwedd ar y broses ddatgelu, yn benodol mewn perthynas â darparu disgrifiadau digonol ar restrau o ddeunydd nas defnyddir.

| Modiwl gorfodol | Asesiad |
|---|---|
| Mae adolygiadau a phenderfyniadau gwaith achos (gan gynnwys defnyddio ceisiadau a derbyn pledion) yn gymesur; cânt eu cofnodi'n gywir; maent yn cydymffurfio â Chod Erlynwyr y Goron ac unrhyw bolisïau a chanllawiau perthnasol; maent yn cynnwys ymgynghori â'r heddlu; ac maent yn cyfrannu at ganlyniadau boddhaol a boddhad dioddefwyr a thystion | **Gweddol** |

### Crynodeb

*Nid yw dros hanner ffeiliau'r heddlu sy'n cyrraedd yr Ardal o ansawdd digonol ac ni chaiff ddigon ei wneud i fynd i'r afael â'r mater. Mae angen herio'r heddluoedd yn fwy ynglŷn ag achosion o fethu â dilyn Canllawiau'r Cyfarwyddwr ar Gyhuddo neu gyrraedd y Safon Genedlaethol ar gyfer Ffeiliau. Yn rhy aml o lawer, nid yw'r Ardal yn adolygu achos o gwbl cyn iddo gael ei restru yn y llys a, hyd yn oed pan fydd yn gwneud hynny, nid yw'r adolygiad yn ychwanegu unrhyw werth gwirioneddol.*

**5.13** Ar hyn o bryd mae'r Ardal yn gweithio gyda'r heddlu i wella ansawdd ffeiliau. Fodd bynnag, nid yw'r gwasanaeth a ddarperir gan y pedwar heddlu sy'n bwydo i mewn i CPS Cymru o safon ddigon uchel. O'r 120 o achosion a archwiliwyd gan arolygwyr, dim ond yn achos 44.2% ohonynt yr ystyriwyd bod y gwasanaeth a ddarperid gan yr heddlu yn dda a nodwyd bod 27.5% yn weddol a bod 28.3% yn wael.

**5.14** Roedd cyfran fawr o'r ffeiliau a archwiliwyd yn destun gofynion y Safon Genedlaethol ar gyfer Ffeiliau. Er i ffeiliau'r heddlu gael eu cyflwyno o fewn y terfynau amser rhagnodedig fel arfer (cyflwynwyd 70.4% ar amser) roedd llai na hanner yn cydymffurfio â'r Safon Genedlaethol ar gyfer Ffeiliau (48.7%). Pan ymwelodd y tîm â'r Ardal a chynnal archwiliadau o ffeiliau achosion a oedd yn mynd rhagddynt yn y llys nodwyd gennym fod ychydig mwy (60.0%) yn cydymffurfio â'r Safon Genedlaethol ar gyfer Ffeiliau.

**5.15** Er bod tystiolaeth o fater ansawdd ffeiliau'r heddlu yn cael ei godi rhwng yr asiantaethau, dengys ein hadolygiad o waith achos mai prin yw'r achosion lle mae'r erlynydd adolygu yn nodi ac yn herio diffygion yng nghyflwyniadau'r heddlu. Caniataodd yr Ardal i'r unig achos yn y sampl o ffeiliau lle y cafwyd cyhuddiad gan yr heddlu yn groes i God Erlynwyr y Goron fynd i dreial ac nid oedd unrhyw dystiolaeth ar ffeil yr achos i awgrymu bod unrhyw adborth wedi'i roi. O'r 26 o achosion lle y cafwyd cyhuddiad gan yr heddlu, roedd saith achos lle roedd y diffynnydd wedi'i gyhuddo gan yr heddlu yn groes i Ganllawiau'r Cyfarwyddwr ar Gyhuddo (5ed argraff.) a dylid bod wedi'u cyfeirio at y CPS er mwyn iddo eu cyhuddo ac yn yr achosion hyn, hefyd, nid oedd fawr ddim tystiolaeth bod hyn wedi'i nodi gan yr erlynydd na'i fwydo yn ôl i'r heddlu. Dangosodd ein 'gwiriadau

realiti' yn y llys o ran achosion a oedd yn mynd rhagddynt, mewn tri o'r 10 achos, fod y diffynnydd wedi'i gyhuddo yn groes i Ganllawiau'r Cyfarwyddwr ar Gyhuddo (5ed argraff.), unwaith eto heb nodi bod y diffynnydd wedi'i gyhuddo gan yr heddlu yn groes i'r canllawiau hynny a heb herio'r heddlu.

**5.16** Roedd hefyd yn amlwg nad oedd cydymffurfiaeth yr heddlu yn cael ei herio mewn perthynas â mentrau Trawsnewid Cyfiawnder Diannod a Rheoli Achosion yn Well. Mewn dim ond 12 o'r 38 o achosion yn yr archwiliad o ffeiliau (31.6%) y nododd yr Ardal nad oedd yr heddlu wedi cydymffurfio â gofynion Trawsnewid Cyfiawnder Diannod a Rheoli Achosion yn Well a chodi'r mater gyda'r heddlu. Yr un oedd y sefyllfa yn y 10 achos a arsylwyd yn llys y pledion dieuog disgwyliedig (NGAP), na chyrhaeddodd pedwar ohonynt y Safon Genedlaethol ar gyfer Ffeiliau, ond dim ond mewn un achos y rhoddwyd sylw i'r diffyg yn ystod yr adolygiad. Yn yr achos hwnnw, gofynnodd y cyfreithiwr am yr eitemau a oedd ar goll heb nodi ei fod yn gyfystyr â pheidio â chydymffurfio â'r Safon Genedlaethol ar gyfer Ffeiliau. Os na chaiff yr heddlu ei herio yn llawer mwy cyson mae'n annhebygol y gwelir unrhyw welliant sylweddol.

**5.17** Er i ni gael ein hysbysu bod adborth wedi'i roi i'r heddlu ar achosion a fethodd drwy'r rheolwyr cyfreithiol, o'r 28 o ganlyniadau anffafriol (dirwyn achos i ben neu ryddfarnau dan orchymyn y llys) dim ond pump (17.9%) a gafodd adroddiad canlyniad anffafriol digonol ar y system rheoli achosion, neu dystiolaeth arall a oedd wedi'i chofnodi ar y ffeil, fod gwersi i'w dysgu wedi'u nodi.

**5.18** Roedd pob un o'r achosion lle y cafwyd cyhuddiad gan yr Ardal yn cydymffurfio â'r Cod, sy'n ardderchog, ond nid yw'r Ardal mor effeithiol ag y dylai fod o ran dirwyn i ben yr achosion hynny lle y ceir cyhuddiad gan yr heddlu neu CPS Direct (CPSD) nad ydynt yn cydymffurfio â'r Cod. O'r 120 o achosion a archwiliwyd, roedd 114 (95.0%) yn cydymffurfio â'r Cod ar adeg cyhuddo'r diffynnydd ac nid oedd chwech (5.0%) yn cydymffurfio ag ef (un achos lle y cafwyd cyhuddiad gan yr heddlu a'r pump arall lle y cafwyd cyhuddiad gan CPSD). Aeth pump o'r chwe achos ymlaen i fethu prawf y Cod pan gawsant eu hadolygu gan yr Ardal ar ôl y cyhuddiad. Caniatawyd i dri fynd ymlaen i Lys y Goron a chafodd y ddau arall eu dirwyn i ben yn hwyr.

**Astudiaeth achos**

Ymchwiliodd yr heddlu i honiad o niwed corfforol difrifol yn dilyn digwyddiad mewn clwb nos lle cafodd yr achwynydd anafiadau difrifol i'w ben ac na allai gofio beth oedd wedi digwydd iddo.

Ildiodd y sawl a oedd yn cael ei ddrwgdybio i'r heddlu (pan gafodd wybod pa mor ddifrifol oedd anafiadau'r dioddefwr) ac mewn cyfweliad esboniodd nad oedd yn sicr beth yn union a ddigwyddodd yn y clwb nos ond awgrymodd iddo wneud yr hyn a wnaeth er mwyn amddiffyn ei hun. Roedd lleoliad y digwyddiad yn cael ei fonitro gan deledu cylch cyfyng. Ceisiodd yr heddlu gyngor ar gyhuddo gan CPSD.

Hysbysodd yr heddlu y cyfreithiwr cyhuddo fod y dioddefwr i'w weld yn glir ar y darn o ffilm o'r teledu cylch cyfyng yn cael ei wthio â dwy law ac awdurdododd yr erlynydd gyhuddo'r diffynnydd heb fynnu bod y CPS yn gweld y darn o ffilm. Adolygwyd yr achos ddwywaith gan yr Ardal a chaniatawyd iddo barhau heb i gyfreithiwr wylio'r darn o ffilm o'r teledu cylch cyfyng, a oedd ar gael erbyn hyn.

Aeth yr achos yn ei flaen i Lys y Goron ac yn y diwedd gwyliodd cyfreithiwr gwahanol y darn o ffilm o'r teledu cylch cyfyng. Roedd o'r farn nad oedd y darn o ffilm yn cefnogi achos yr erlyniad ac, felly, cafodd yr achos ei ddirwyn i ben.

**5.19** Mae cryn le i wella ansawdd gwaith adolygu CPS Cymru, yn enwedig effeithiolrwydd yr adolygiad cychwynnol a gynhelir fel rhan o Trawsnewid Cyfiawnder Diannod. Yn ein harchwiliad o ffeiliau, o'r achosion hynny roedd angen eu hadolygu cyn y gwrandawiad cyntaf, nid oedd bron chwarter (24.7%) wedi'u hadolygu o gwbl erbyn i'r achos ddod i'r llys ar gyfer y gwrandawiad cyntaf. O'r gweddill, roedd adolygiad o'r ansawdd priodol, a ymdriniodd â'r materion perthnasol ac a oedd yn cynnwys damcaniaeth neu strategaeth o achos yr erlyniad, wedi'i gynnal ar gyfer ychydig dros draean (38.8%).

**5.20** Ategwyd y canfyddiadau hyn gan ein gwiriadau realiti, lle roedd hanner yr achosion a oedd yn mynd rhagddynt a archwiliwyd ar y safle wedi cael adolygiad roeddem yn ystyried ei fod yn wael, a oedd yn aml yn cynnwys adolygiad un llinell heb unrhyw werth ychwanegol. Dim ond 64.1% o'r adolygiadau (ffeiliau Trawsnewid Cyfiawnder Diannod/ Rheoli Achosion yn Well yn ein sampl o ffeiliau achos) a oedd yn amserol, nad yw'n rhoi digon o amser i gymryd camau adferol pan gânt eu nodi.

**Astudiaeth achos**

Ni chafodd achos a oedd yn ymwneud â thrais lle y gwnaed cyhuddiad ar sail y prawf trothwy gan CPSD ei adolygu unwaith gan yr Ardal drwy gydol yr achos - aeth i dreial yn Llys y Goron ac yn y diwedd rhyddfarnwyd y diffinydd gan y rheithgor.

**5.21** Dangosodd ein harchwiliad o ffeiliau lefel isel o gydymffurfiaeth â gofynion Trawsnewid Cyfiawnder Diannod o ran cyflwyno Manylion Cychwynnol Achos yr Erlyniad (dim ond 42.7% a oedd yn amserol). Fodd bynnag, mae gan yr Ardal gytundeb â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS) y gellir gwneud ceisiadau am orchmynion megis mesurau arbennig ar lafar. Mae hyn o gymorth wrth neilltuo adnoddau.

**5.22** O'r achosion yn y sampl o ffeiliau, roedd wyth yn cynnwys penderfyniad i dderbyn sail ple. O'r rheiny, roedd pump yn benderfyniadau da (62.5%) ond ni chafodd y sail ei chrynhoi'n ysgrifenedig fel sy'n ofynnol gan Ganllawiau'r Twrnai Cyffredinol yn yr un o'r achosion.[4] Mewn llai na hanner yr achosion perthnasol y cafodd barn y dioddefwr ei hystyried wrth benderfynu peidio â pharhau ag un cyhuddiad neu fwy, derbyn ple llai neu gymryd sail ple. Ymgynghorwyd â'r heddlu yn amlach, mewn 66.7% o'r achosion pan gynigiwyd y dylid peidio â pharhau â chyhuddiadau neu eu newid yn sylweddol.

**Y mater y mae angen mynd i'r afael ag ef**

Mae'n rhaid i'r Ardal barhau i weithio gyda'r heddlu (a'i herio lle y bo angen) er mwyn gwella ansawdd ffeiliau.

**Y mater y mae angen mynd i'r afael ag ef**

Mae'n rhaid i'r Ardal wella ansawdd adolygiadau erlynwyr o ffeiliau.

4 *Guidelines on the acceptance of pleas and the prosecutor's role in the sentencing exercise*; Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol; Tachwedd 2012.
www.gov.uk/guidance/the-acceptance-of-pleas-and-the-prosecutors-role-in-the-sentencing-exercise

| Modiwl gorfodol | Asesiad |
|---|---|
| Mae'n achosion yn cael eu paratoi a'u datblygu'n effeithiol ac yn amserol | **Da** |

## Crynodeb

*Er bod canlyniadau yn dal i fod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, mae perfformiad Llys y Goron yn dirywio yn achos achosion a ymleddir sy'n destun pryder, yn enwedig mewn perthynas â thrais a throseddau rhywiol difrifol, sy'n rhan sylweddol a chynyddol o'r llwyth achosion a ymleddir.*

**5.23** Rodd y gwrandawiad cyntaf yn gwbl effeithiol a chydymffurfiodd â disgwyliadau mentrau Trawsnewid Cyfiawnder Diannod/Rheoli Achosion yn Well mewn 75.8% o'r ffeiliau a archwiliwyd. Yn y llysoedd ynadon roedd 72.9% o'r achosion yn gwbl effeithiol yn y gwrandawiad cyntaf ac, o'r rhai nad oeddent yn gwbl effeithiol, dim ond mewn chwech o'r 23 o achosion roedd yr Ardal ar fai (26.1%). Datgelodd ein gwiriad realiti ar y safle (arsylwi llys y pledion dieuog disgwyliedig) fod naw o 11 o achosion (81.8%) yn gwbl effeithiol ac nad oedd y CPS i'w feio am y ffaith bod y ddau arall yn aneffeithiol.

**5.24** Ar gyfer y 12 mis hyd at fis Rhagfyr 2015 dim ond 1.67 oedd nifer gyfartalog y gwrandawiadau fesul achos. Mae hyn yn welliant o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol ac mae gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mewn achosion a ymleddir y cyfartaledd yw 3.01 gwrandawiad fesul achos, o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 3.63. Canran yr achosion y rhoddir y gorau iddynt yn y trydydd gwrandawiad neu mewn gwrandawiad dilynol yw 20.7% (ychydig dros 10% yn is (yn well) na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 31.0%).

**5.25** Yn Llys y Goron nifer gyfartalog y gwrandawiadau yw 5.07 fesul achos (sydd hefyd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 5.66). Dangosodd ein gwaith arsylwi achosion Rheoli Achosion yn Well yn y llys fod Gwrandawiadau Ple a Pharatoi Treial (PTPH) i gyd yn effeithiol, bod y ffurflen PTPH wedi'i chwblhau'n llawn ac yn gywir a bod y partïon wedi cyfranogi'n effeithiol yn y gwrandawiad.

**5.26** Mae'r ardal yn perfformio'n dda yn hyn o beth, er na chyflwynir y bwndel o Fanylion Cychwynnol Achos yr Erlyniad yn amserol yn y rhan fwyaf o achosion. Dim ond 42.7% a gyflwynwyd yn amserol yn y sampl o ffeiliau a dim ond 64.7% a oedd o ansawdd digon da. Nododd gwaith arsylwi yn llys y pledion dieuog disgwyliedig, mewn pump o'r deg achos, fod manylion cychwynnol achos yr erlyniad wedi'u cyflwyno'n hwyr ac nid oedd un o bob tri yn bodloni'r safon ofynnol (35.3%).

**5.27** Mynegodd rhanddeiliaid bryder nad oedd manylion cychwynnol achos yr erlyniad yn cael eu cyflwyno yn unol â therfynau amser Trawsnewid Cyfiawnder Diannod. Fe'n hysbyswyd y byddai'r papurau yn aml yn cyrraedd y llys y diwrnod cyn y gwrandawiad llys. At hynny, byddai papurau yn aml yn cael eu cyflwyno'n hwyr yn Llys y Goron, a gadarnhawyd gan ein gwaith arsylwi yn y llys. Serch hynny, mae'n amlwg bod y llys yn benderfynol y bydd y gwrandawiad cyntaf yn effeithiol; mae'r cydgyfeiriad hwn o ran buddiant wedi sicrhau bod y gwrandawiadau yn effeithiol er i bapurau gael eu cyflwyno'n hwyr.

**5.28** Nid yw'r amddiffyniad yn cymryd rhan mewn achosion cyn y gwrandawiad cyntaf. O'r achosion lle cafodd cynrychiolydd yr amddiffyniad ei nodi'n briodol gan yr heddlu, dim ond mewn un achos (achos yn Llys y Goron) y cyfranogodd yr Ardal yn effeithiol cyn y gwrandawiad cyntaf.

**5.29** Mae angen gwella cydymffurfiaeth â gorchmynion barnwyr a chyfarwyddiadau llys hefyd. Yn gyffredinol, dim ond 37.6% o'r achosion a archwiliwyd a ddangosodd gydymffurfiaeth lawn. Cadarnhaodd hyn adborth rhanddeiliaid nad yw'r CPS bob amser yn datblygu achosion yn effeithiol. Roedd perfformiad yn well yn y llysoedd ynadon (cyfradd gydymffurfio o 45.9%) nag yr oedd yn Llys y Goron (31.3%).

**5.30** Yn gyffredinol, roedd lefel foddhaol o 'afael' mewn llai na thraean o'r achosion a archwiliwyd (31.5%). Dim ond mewn 11.5% o achosion Llys y Goron a 32.2% o achosion y llysoedd ynadon roedd y defnydd o'r system rheoli achosion, arnodiadau ar ffeiliau a phrosesau cadw ffeiliau yn hollol foddhaol.

**5.31** Y gyfradd gollfarnu gyffredinol yn y llysoedd ynadon ar gyfer y 12 mis hyd at fis Rhagfyr 2015 oedd 87.2%, a oedd yn cyfateb i ostyngiad bach iawn o gymharu â blynyddoedd blaenorol ond a oedd yn dal i fod gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 83.8%. Yn Llys y Goron, mae'r gyfradd gollfarnu wedi bod yn gostwng ac mae bellach ychydig dros y cyfartaledd cenedlaethol (79.9% o gymharu â 79.1%). Mae canran y rhyddfarnau dan orchymyn barnwr wedi gostwng yn ystod y cyfnod ac ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2015 roedd yn cyfateb i 12.2% (12.3% yn genedlaethol).

**5.32** Mae angen i'r perfformiad presennol mewn achosion sy'n ymwneud â thrais a throseddau rhywiol difrifol wella, gyda chyfradd gollfarnu o ddim ond 54.3% (o gymharu â 57.7% yn genedlaethol). Gan fod yr achosion hyn yn gyfran sylweddol o lwyth achosion cyffredinol Llys y Goron maent yn cael cryn effaith ar gyfradd gollfarnu Llys y Goron. Fel y nodwyd ym mhennod 3 fe'n hysbyswyd mai dim ond mewn 50% o'r achosion a oedd yn ymwneud â thrais a throseddau rhywiol difrifol a atgyfeiriwyd er mwyn cael cyngor cyn cyhuddo y cafwyd cyhuddiad gan yr Ardal mewn gwirionedd. Pe ymdrinnid â'r mater hwn byddai'n rhyddhau adnoddau i ganolbwyntio ar achosion lle y ceir cyhuddiad.

**5.33** Mae'r gyfradd treialon chwâl ac aneffeithiol yn dal i fod yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn y llysoedd ynadon mae wedi gwella o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (gan gynyddu i 50.0%) ac mae dal i fod yn is (yn well) na'r cyfartaledd cenedlaethol (52.3%). Yn Llys y Goron, mae'r gyfradd wedi gwaethygu o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (41.8% i 43.6%) ond mae'n dal i fod yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 50.1%.

**Y mater y mae angen mynd i'r afael ag ef**

Mae angen i'r Ardal wella ei gwaith paratoi achos ar gyfer y gwrandawiad cyntaf a chydymffurfio'n llawn â gofynion Trawsnewid Cyfiawnder Diannod.

**Y mater y mae angen mynd i'r afael ag ef**

Mae perfformiad yr Ardal o ran gwaith ar achosion sy'n ymwneud â thrais a throseddau rhywiol difrifol yn destun pryder penodol am ei fod yn faes gwaith sensitif sy'n tyfu. Mae'n rhaid i'r Ardal ganolbwyntio ar y maes hwn a gweithio gyda'r heddlu (a'i herio os oes angen) er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag ef yn briodol.

| Modiwl gorfodol | Asesu |
|---|---|
| Cyfathrebir â dioddefwyr o dan bob menter gymwys, Cod y Dioddefwyr neu bolisïau (gan gynnwys ymgynghori â dioddefwyr ynghylch peidio â pharhau ag achosion neu bledion, Llythyrau Cyfathrebu â'r Dioddefwr, gohebiaeth â theuluoedd mewn profedigaeth a'r rhai sy'n ymwneud â Hawl Dioddefwyr i Adolygiad) pan fo angen a gwneir hynny'n amserol ac i safon uchel | **Gwael** |

## Crynodeb

*Prin iawn oedd y dystiolaeth o gydymffurfiaeth â Chod y Dioddefwyr a pholisïau ar gyfathrebu â dioddefwyr, ac mae perfformiad yn wael mewn perthynas ag ansawdd ac amseroldeb gohebiaeth.*

**5.34** Datgelodd ein harchwiliad o ffeiliau achos nifer o wendidau, sef:

a O'r 106 o ffeiliau lle roedd dioddefwr wedi'i nodi, ychydig dros hanner (53.8%) a gyrhaeddodd y safon ofynnol ar gyfer cydymffurfio â Chod y Dioddefwyr a pholisïau ar gyfathrebu â dioddefwyr.

b Dim ond mewn 50.0% o'r achosion perthnasol yr anfonwyd Llythyr Cyfathrebu â'r Dioddefwr amserol.

c Ni chafodd Llythyr Cyfathrebu â'r Dioddefwr ei anfon mewn 45.5% o'r achosion perthnasol.

### Astudiaeth achos

Wrth ymdrin â throsedd casineb hysbysodd y cyfreithiwr yr Uned Cyswllt Dioddefwyr fod gan y dioddefwr yr hawl i wasanaeth estynedig a bod yn rhaid i'r Llythyr Cyfathrebu â'r Dioddefwr gael ei anfon mewn un diwrnod. Arhosodd yr Uned Cyswllt Dioddefwyr bedwar diwrnod cyn gwneud cais i'r heddlu anfon rhagor o fanylion cyswllt ar gyfer y dioddefwr (gan nad oeddent ar y ffeil). Gofynnwyd i'r heddlu anfon y manylion hyn unwaith eto bum diwrnod yn ddiweddarach ac ni chafwyd unrhyw ymateb. Wythnosau'n ddiweddarach, ysgrifennodd yr Uned Cyswllt Dioddefwyr at uned y CPS yn gofyn a oedd am iddi anfon y Llythyr Cyfathrebu â'r Dioddefwr o hyd. Nid oedd unrhyw gofnod o ymateb ar y ffeil ac nid ymddengys fod unrhyw lythyr wedi'i anfon er iddo gael ei ddrafftio.

ch Dim ond mewn 50.0% o achosion roedd llythyrau at ddioddefwyr o ansawdd digonol.

d Roedd diffyg empathi tuag at ddioddefwyr mewn rhai Llythyrau Cyfathrebu â'r Dioddefwr ac mewn un achos a archwiliwyd gennym lle roedd yn ofynnol i'r Ardal gynnig cyfarfod â'r dioddefwr, ni wnaed hynny.

dd Yn ogystal â rhwymedigaeth yr Ardal i hysbysu dioddefwyr o newidiadau i'w hachos fel rhan o gynllun Llythyr Cyfathrebu â'r Dioddefwr cenedlaethol y CPS, mae hefyd rhwymedigaeth i hysbysu'r dioddefwr pan wneir penderfyniad i atal yr achos o dan gynllun cenedlaethol Hawl Dioddefwyr i Adolygiad. Dim ond mewn 70.0% o'r ffeiliau perthnasol a archwiliwyd gan arolygwyr y cyfeiriwyd at y cynllun.

e Roedd enghreifftiau o lythyrau yn cael eu hanfon at ddioddefwyr a oedd yn nodi'r canlyniadau anghywir ac nad oeddent yn cynnwys digon o wybodaeth i esbonio'r penderfyniadau a wnaed.

**5.35** Rydym wedi nodi, yn ein Rhaglen Archwilio Gwaith Achos Ardal (ACEP) 2014-15, fod CPS Cymru wedi cyflawni ei rwymedigaethau yn llawn mewn 66.7% o achosion lle roedd angen ymgynghori â dioddefwyr ynghylch ple neu gynnig i beidio â pharhau ag achos, a oedd yn cymharu'n ffafriol â 49.7% % o achosion yn genedlaethol. Fodd bynnag, yn ein harchwiliad presennol o ffeiliau, dim ond 42.8% o ddioddefwyr yr ymgynghorwyd â hwy, sy'n golygu bod perfformiad wedi dirywio.

**5.36** Cydnabu nifer o aelodau o staff wrth yr arolygwyr fod gwendidau yn y system bresennol ac fe'n hysbyswyd gan reolwyr fod rhai erlynwyr wedi dewis ysgrifennu eu llythyrau eu hunain at ddioddefwyr, am fod y llythyrau templed yn annigonol yn eu barn hwy. Nododd aelodau eraill o staff y byddent yn cael budd o hyfforddiant pellach ar sut i ysgrifennu Llythyrau Cyfathrebu â'r Dioddefwr.

**5.37** Mae sicrhau bod erlynwyr yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol yn amserol yn rhan annatod o'r broses o anfon manylion am ganlyniadau achosion. At y diben hwn (a dibenion eraill) mae'r Ardal yn ei gwneud yn ofynnol i erlynwyr yn y llys gwblhau taflenni cofnodi gwrandawiad (HRS). Fodd bynnag, nodwyd gennym fod oedi cyn i asiantau gyflwyno'r daflen cofnodi gwrandawiad i swyddfa'r CPS. Fel arfer roedd yr ymateb hwyr i'w briodoli i'r ffaith bod asiant wedi cwblhau'r ffurflen fel dogfen Word ac wedyn wedi'i hanfon mewn neges e-bost i'r adran weinyddol, gan beri oedi cyn i'r wybodaeth gael ei throsglwyddo i'r Uned Cyswllt Dioddefwyr. Byddai hyn wedyn yn arwain at oedi cyn i'r dioddefwr neu'r tyst gael ei hysbysu am y penderfyniad neu'r canlyniad. Yn gyffredinol, dangosodd ein harchwiliad o ffeiliau achos na chyflwynwyd 59.3% o ganlyniadau gwrandawiadau yn y llysoedd ynadon yn brydlon ar daflen cofnodi gwrandawiad, tra cynyddodd y ffigur ychydig i 60.7% yn Llys y Goron.

**5.38** Er i erlynwyr mewnol gyflwyno eu taflen cofnodi gwrandawiad yn fwy amserol o ganlyniad i'r cyfleuster diweddaru uniongyrchol ar Ap yr Erlynydd, roedd eu harnodiadau yn aml yn wael ac, mewn rhai achosion, roedd yn anodd canfod beth oedd wedi digwydd yn y llys neu pam roedd penderfyniad wedi'i wneud i atal cyhuddiad neu ei newid. Mae hyn yn golygu bod gwybodaeth bwysig yn cael ei cholli. Mae angen i'r ardal sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r gofynion i ysgrifennu at y dioddefwr ym mhob achos lle mae'r cyhuddiad wedi cael e newid neu ei atal.

**Astudiaeth achos**

Collfarnwyd diffynnydd o drosedd nas gwaethygwyd gan hil a difrod troseddol. Er i'r llythyr at y dioddefwr roi manylion cywir am y ddedfryd, hysbysodd y dioddefwr yn anghywir fod hyn yn ymwneud â chollfarnau am ymosodiad a waethygwyd gan hil ac ymosodiad nas gwaethygwyd.

At hynny, hysbysodd y llythyr y dioddefwr yn anghywir fod y diffynnydd wedi'i gael yn ddieuog o achosi difrod troseddol.

**5.39** Lleisiwyd pryderon ynghylch digonolrwydd y gwasanaeth y mae CPS Cymru wedi'i ddarparu i ddioddefwyr yn y gorffennol. Yn benodol:

a Yn 2014-15 arolygodd Tîm Prosiect yr Uned Cyswllt Dioddefwyr, o Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Pholisi Pencadlys y CPS, Uned Cyswllt Dioddefwyr CPS Cymru fel rhan o'i Adolygiad Sicrwydd o'r Uned Cyswllt â Dioddefwyr. Nododd 11 o argymhellion ar gyfer gwella a oedd yn cynnwys y canlynol: mae cydymffurfiaeth Erlynwyr yn broblem o ran amseroldeb ac ansawdd y wybodaeth; dylai erlynwyr hysbysu'r Uned Cyswllt Dioddefwyr a ddylid anfon y Llythyr Cyfathrebu â'r Dioddefwr o fewn diwrnod neu bum diwrnod; penodi rheolwr ar yr Uned Cyswllt Dioddefwyr (roedd gan yr uned reolwr ar adeg cynnal ein harolygiad) a bod yn fwy rhagweithiol wrth reoli'r Uned Cyswllt Dioddefwyr o ddydd i ddydd (mae'r Ardal wedi dweud wrthym fod hyn yn digwydd); a darparu proses strwythuredig ar gyfer monitro ansawdd yr ohebiaeth a gaiff ei drafftio gan y Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr.

b Ymwelodd HMCPSI â CPS Cymru ym mis Mehefin 2015 fel rhan o'r arolygiad o brosesau cyfathrebu â dioddefwyr,[5] pan nodwyd canfyddiadau tebyg i'r uchod.

c Ym mis Mawrth 2016 cynhaliwyd adolygiad mewnol gan uwch aelodau o staff yr Ardal a nododd wendidau hefyd. Argymhellodd yr adolygiad y dylid penodi rheolwr penodol ar yr uned a diwygio'r llythyrau templed. Ceisiodd hefyd atgoffa erlynwyr am y disgwyliadau o ran cyfathrebu â dioddefwyr gan ddefnyddio amcanion perfformiad. O gofion hyn, nododd Cynllun Busnes CPS Cymru 2015-16 fod gweithredu'r argymhellion a ddeilliodd o Adolygiad Sicrwydd yr Uned Cyswllt Dioddefwyr ar arolygiadau dilynol yn un o amcanion yr Ardal.

5 *Communicating with victims*; HMCPSI: Ionawr 2016. www.justiceinspectorates.gov.uk/hmcpsi/inspections/communicating-with-victims/

**5.40** Mae'r Ardal wedi bod yn ymwybodol o'r gwendidau hyn o ran ymdrin â phrosesau cyfathrebu â dioddefwyr ers peth amser ac mae wedi rhoi cynllun gweithredu ar waith, ond nid yw wedi gwella perfformiad i safon dderbyniol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod ei bod yn gweithio i roi Menter Siarad â Thystion genedlaethol y CPS ar waith a'i bod hefyd yn gorfod cydymffurfio â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, er na allwn ganfod faint o ohebiaeth sy'n cael ei hanfon allan yn Gymraeg.

| Y mater y mae angen mynd i'r afael ag ef |
|---|
| Mae'n rhaid i'r Ardal wella ei pherfformiad o ran cydymffurfio â Chod y Dioddefwyr a phob polisi perthnasol sy'n ymwneud â chyfathrebu â dioddefwyr. |

| Y mater y mae angen mynd i'r afael ag ef |
|---|
| Mae'n rhaid i Fwrdd Strategaeth yr Ardal sicrhau y cyrhaeddir y safonau priodol o ran ansawdd ym mhob gohebiaeth â dioddefwyr. |

# Atodiadau

## A Rhestr Termau

**Achos anffafriol**
Mae canlyniad anffafriol yn achos y mae'r erlyniad yn penderfynu peidio â pharhau ag ef neu a gaiff ei atal gan y llys am nad oes digon o dystiolaeth.

**Achos Cost Uchel Iawn (VHCC)**
Cynllun a ddefnyddir gan y CPS er mwyn sicrhau y caiff gwaith a wneir gan gwnsleriaid wrth baratoi a chyflwyno achosion yn Llys y Goron, y Llys Uwch ac ar y cam cyngor ei reoli'n weithredol gan y cyfreithiwr adolygu a bod gwariant yn yr achosion mwyaf cymhleth, difrifol a drud yn cael ei archwilio'n briodol.

**Ap yr Erlynydd**
Cymhwysiad cyfrifiadurol y bwriedir iddo ei gwneud yn hawdd i gyfreithwyr y CPS yn y llysoedd ynadon gael gafael ar ffeiliau achos a dull o symleiddio'r broses o gofnodi gwybodaeth am ganlyniadau gwrandawiadau ar y system rheoli achosion.

**Arferion Gweithredu Safonol (SOPs)**
Prosesau cenedlaethol y CPS sy'n sicrhau bod arferion busnes yn gyson. Maent yn darparu gweithdrefn osod er mwyn i bob Ardal ei dilyn. Mae enghreifftiau o arferion gweithredu safonol yn cynnwys rhai ar gyfer Trawsnewid Cyfiawnder Diannod, Rheoli Achosion yn Well a therfynau amser cadwraeth.

**Asesiad Ansawdd Unigol (IQA)**
Cynllun y CPS i asesu perfformiad unigolion a chydymffurfiaeth â Safonau Ansawdd Gwaith Achos y CPS.

**Asiant**
Mae asiantau yn gyfreithwyr nas cyflogir gan y CPS ond a gaiff eu bwcio, fesul dydd fel arfer, i erlyn achosion yn y llys ar ei ran. Nid oes ganddynt y pŵer i wneud penderfyniadau o dan God Erlynwyr y Goron ac mae'n rhaid iddynt gael eu cyfarwyddo gan gyfreithwyr y CPS yn hyn o beth.

**Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJB)**
Mae nifer o Fyrddau (neu bartneriaethau) Cyfiawnder Troseddol Lleol yng Nghymru a Lloegr, sy'n dwyn ynghyd brif swyddogion pob asiantaeth a phartneriaeth cyfiawnder troseddol er mwyn cydgysylltu'r gwaith o weithredu'r system cyfiawnder troseddol.

**Bwrdd Strategol yr Ardal (ASB)**
Uwch dîm rheoli CPS Cymru.

**Cod Erlynwyr y Goron (y Cod)**
Y ddogfen gyhoeddus sy'n nodi'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau erlyn. Mae gan Erlynwyr y Goron bŵer y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus i benderfynu ar yr achosion a ddirprwyir, ond mae'n rhaid iddynt arfer y pŵer hwnnw yn unol â'r Cod a'i brawf dau gam – y cam tystiolaethol a'r cam budd y cyhoedd. Dim ond, yn gyntaf, os oes digon o dystiolaeth er mwyn sicrhau tebygolrwydd realistig y ceir collfarn ac, yn ail, os oes angen yr erlyniad er budd y cyhoedd y dylai achosion fynd rhagddynt. *Gweler hefyd y prawf Trothwy*.

**CPS Direct (CPSD)**
Ardal y CPS sy'n gwneud y rhan fwyaf o benderfyniadau'r CPS ynghylch cyhuddo o dan y cynllun cyhuddo. Mae cyfreithwyr ar gael ar un rhif ffôn cenedlaethol er mwyn sicrhau y gellir cael cyngor ar unrhyw adeg.

**Cyfrif Dysgu Unigol (ILA)**
Mae'r ILA yn darparu £350 y flwyddyn i bob aelod o staff y CPS ar gyfer datblygiad proffesiynol er mwyn sicrhau bod gan bob aelod o staff yr adnoddau'r sgiliau i wneud ei waith.

**Cynllun Cyfathrebu a Chysylltu â Dioddefwyr**
Un o gynlluniau'r CPS lle y caiff dioddefwyr eu hysbysu am benderfyniadau i beidio â pharhau â chyhuddiadau neu newid cyhuddiadau yn sylweddol. Mae'n rhaid i'r CPS hysbysu'r dioddefwr o fewn un diwrnod gwaith os bydd yn agored i niwed neu'n cael ei fygwth ac o fewn pum diwrnod gwaith ar gyfer pob dioddefwr arall. Mewn rhai categorïau o achosion cynigir cyfarfod i'r dioddefwr neu ei deulu er mwyn esbonio'r penderfyniadau hyn.

**Cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad (VRR)**
O dan y cynllun gellir gofyn am adolygiad o benderfyniadau canlynol y CPS: peidio â chyhuddo; peidio â pharhau â phob cyhuddiad (neu eu tynnu'n ôl yn y llysoedd ynadon) gan ddod â'r achos i ben; peidio â chynnig unrhyw dystiolaeth o gwbl yn yr achos; a gadael i'r holl gyhuddiadau yn yr achos "aros ar y ffeil" (dyma'r term a ddefnyddir mewn amgylchiadau lle mae'r CPS yn gwneud penderfyniad i beidio â pharhau â chyhuddiadau ac yn gofyn bod y cyhuddiadau hynny yn "aros ar y ffeil" sydd wedi'i nodi 'ni ddylai fynd yn ei flaen heb ganiatâd y Llys hwn neu'r Llys Apêl').

**Dyletswydd ddatgelu'r erlynydd**
Mae gan yr erlyniad ddyletswydd i ddatgelu i'r amddiffyniad ddeunydd a gasglwyd yn ystod ymchwiliad i drosedd, na fwriedir iddo gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth yn erbyn y diffynnydd, ond a all danseilio achos yr erlyniad neu gynorthwyo achos yr amddiffyniad. Darperir gwybodaeth o dan y broses datgelu gychwynnol (a elwid gynt yn ddatgelu "sylfaenol") fel rhan o'r drefn ym mhob achos a ymleddir. Darperir gwybodaeth o dan y broses datgelu parhaus ("eilaidd" gynt) ar ôl i'r amddiffyniad gyflwyno datganiad. Ymdrinnir ag amseroldeb datgelu gwybodaeth yn y Rheolau ar Weithdrefnau Troseddol.

**Eiriolwr y goron (CA)**
Cyfreithiwr a gyflogir gan y CPS sydd â hawl gwrandawiad yn Llys y Goron.

**Erlynydd cyswllt**
Un o gyflogeion y CPS sydd wedi'i hyfforddi i gyflwyno achosion yn y llysoedd ynadon lle y bydd y diffynnydd yn pledio'n euog, eu profi lle nad yw'r diffynnydd yn bresennol yn y llys ynadon neu gynnal treialon ar gyfer troseddau lle na ellir carcharu'r diffynnydd.

**Gorchmynion/cyfarwyddiadau llys**
Gorchymyn neu gyfarwyddyd a wneir gan y llys mewn gwrandawiad hynt achos sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r erlyniad gydymffurfio ag amserlen o waith paratoi ar gyfer treial. Gwneir y gorchmynion hyn yn aml o dan y Rheolau ar Weithdrefnau Troseddol.

**Gwrandawiad Ple a Pharatoi Treial (PTPH)**
Dyma'r gwrandawiad cyntaf gerbron Llys y Goron lle y dylid rheoli achosion yn effeithiol a'u rhestru ar gyfer treial. Mae ffurflen PTPH benodol y dylid ei chwblhau cymaint â phosibl cyn y gwrandawiad a'i chwblhau yn y gwrandawiad hwnnw. Mae hyn yn rhan o fenter Rheoli Achosion yn Well.

**Manylion Cychwynnol Achos yr Erlyniad (IDPC)**
Y deunydd y mae'n orfodol i'r erlyniad ei gyflwyno i'r llys a'r diffynnydd cyn y gwrandawiad cyntaf. Gall dogfennau y mae angen eu cynnwys amrywio gan ddibynnu ar y math o achos a'r ple disgwyliedig, ond maent bob amser yn cynnwys y daflen gyhuddo ac adroddiad yr heddlu (MG5).

**Model Effeithlonrwydd Adnoddau (REM)**
Fe'i defnyddir i fesur faint o amser y mae tasgau yn ei gymryd a faint sy'n cael eu prosesu i greu ffordd safonedig o fesur yr adnoddau sydd eu hangen i wneud gwaith ym mhob rhan o'r sefydliad.

**Ple Dieuog Disgwyliedig (NGAP)**
Mae Ple Dieuog Disgwyliedig yn cynnwys achos lle y disgwylir i'r diffinydd wadu'r drosedd yn y llys yn dilyn asesiad o'r dystiolaeth sydd ar gael.

**Prawf trothwy**
Mae Cod Erlynwyr y Goron yn darparu, lle nad yw'n briodol rhyddhau diffynnydd ar fechnïaeth ar ôl ei gyhuddo, ond nad yw'r dystiolaeth i gymhwyso'r Cod llawn ar gael eto, y dylid cymhwyso'r prawf trothwy.

**Prif Erlynydd y Goron (CCP)**
Y rheolwr cyfreithiol uchaf ar lefel Ardal y CPS a'r unigolyn a gaiff ei ddwyn i gyfrif am ei reolaethau sicrwydd a'i berfformiad.

**Rheoli Achosion yn Well (BCM)**
Yr unig broses a ddefnyddir yn genedlaethol ar gyfer rheoli materion Llys y Goron. Fe'i harweinir gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS) ac mae'n cynnwys y CPS a'r heddlu. Y nod yw ymdrin ag achosion yn fwy effeithlon.

**Rheoli Perfformiad Tîm yr Erlyniad (PTPM)**
Dadansoddiad ar y cyd o berfformiad gan y CPS a'r heddlu yn lleol. Fe'i defnyddir i ystyried canlyniadau prosesau cyhuddo a phrosesau eraill ar y cyd.

**Rheolwr Busnes yr Ardal (ABM)**
Y rheolwr uchaf ar lefel Ardal y CPS nad yw'n rheolwr cyfreithiol.

**Sail ple**
Pan fydd y diffynnydd yn pledio'n euog i'r cyhuddiad ond nad yw'n cytuno â'r ffeithiau llawn fel y'u nodir gan yr erlyniad. Mae'n rhaid i'r erlyniad wedyn benderfynu a ddylai dderbyn y sail y mae'r diffynnydd yn pledio'n euog arni.

**Swyddog/cynorthwyydd paragyfreithiol**
Aelod o staff y CPS sy'n ymdrin â'r ffordd y cynhelir achos yr erlyniad o ddydd i ddydd ac sy'n rheoli hynny o dan oruchwyliaeth un o Erlynwyr y Goron ac, yn Llys y Goron, sy'n mynd i'r llys i helpu'r eiriolwr.

**System rheoli achosion (CMS)**
System TG ar gyfer rheoli achosion a ddefnyddir gan y CPS. Drwy gysylltiadau â systemau'r heddlu mae'r CMS yn cael deunydd achosion electronig.

**Taflen cofnodi gwrandawiad (HRS)**
Cofnod electronig o ddigwyddiadau yn y llys a gedwir gan y CPS. Os caiff ei gwblhau'n gywir mae'n gweithredu fel cofnod parhaus o achos llys a gorchmynion llys.

**Terfyn amser cadwraeth (CTL)**
Y terfyn amser statudol ar gyfer cadw diffynnydd yn y ddalfa yn aros am dreial. Gall y llys ymestyn y terfyn o dan amgylchiadau penodol.

**Trais a Throseddau Rhywiol Difrifol (RASSO)**
Mae'n cynnwys trais, ymosod yn rhywiol, troseddau sy'n ymwneud â gweithgarwch rhywiol, cam-drin plant drwy buteindra neu bornograffi a masnachu mewn pobl er mwyn cam-fanteisio arnynt yn rhywiol.

**Trawsnewid Cyfiawnder Diannod (TSJ)**
Menter ar draws asiantaethau cyfiawnder troseddol sy'n anelu at ddiwygio'r ffordd y gwneir gwaith achos troseddol yn y llysoedd ynadon a chreu system cyfiawnder troseddol gyflymach, gyda llai o oedi a llai o wrandawiadau. Mae'r fenter yn seiliedig ar 10 nodwedd sydd i'w gweithredu gan yr holl asiantaethau er mwyn cyflawni ei nodau.

**Treial aneffeithiol**
Nid yw'r treial yn mynd yn ei flaen ar ddyddiad y treial oherwydd rhywbeth y mae un neu ragor o blith yr erlyniad, yr amddiffyniad neu'r llys wedi'i wneud neu beidio â'i wneud ac mae angen rhestru'r achos ymhellach ar gyfer treial.

**Treial chwâl**
Achos a restrir ar gyfer achos a ymleddir nad yw'n mynd rhagddo, naill ai am fod y diffynnydd yn newid ei ble i euog, neu'n pledio i gyhuddiad amgen, neu am nad yw'r erlyniad yn cynnig unrhyw dystiolaeth.

**Uned Cyswllt Dioddefwyr (VLU)**
Tîm penodedig o staff y CPS ym mhob Ardal sy'n gyfrifol am gyfathrebu'n uniongyrchol â dioddefwyr, gweinyddu cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad, cwynion a goruchwylio'r gwasanaeth i deuluoedd mewn profedigaeth.

**Uned Gofal Tystion (WCU)**
Uned sy'n gyfrifol am reoli gofal dioddefwyr a thystion yr erlyniad o adeg cyhuddo'r diffynnydd hyd at ddiwedd yr achos. Cânt eu staffio gan swyddogion gofal tystion a gweithwyr cymorth eraill sy'n gyfrifol am hysbysu tystion o unrhyw ddatblygiadau wrth i'r achos fynd rhagddo. Gall unedau gynnwys cyfuniad o staff yr heddlu a'r CPS (unedau ar y cyd).

**Y Rhaglen Archwilio Gwaith Achos Flynyddol (ACEP)**
Mae'r rhaglen hon yn cynnwys archwilio ac asesu nifer o ffeiliau'r CPS a gynhelid yn flaenorol bob blwyddyn gan HMCPSI. Cymerir ffeiliau o bob rhan o'r CPS ac maent yn cynnwys amrywiaeth o waith achos difrifol a llai difrifol.

**Y Safon Genedlaethol ar gyfer Ffeiliau (NFS)**
Mae'r ddogfen hon yn nodi'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn ffeil yr heddlu ar gyfer mathau penodol o achosion.

# B Fframwaith arolygu'r Rhaglen Sicrwydd Ardal

## Cyflwyniad

Mae'r fframwaith wedi'i rannu'n ddwy ran, sef: Llywodraethu a Gwerth am Arian; ac Ansawdd Gwaith Achos a Darparu Gwasanaethau i Ddefnyddwyr. Mae gan bob adran ddisgwyliad o ran perfformiad a nifer o feini prawf y gellir casglu tystiolaeth yn eu herbyn, gan ddibynnu ar natur y risg y nodwyd ei bod yn gysylltiedig â'r agweddau hynny ar y fframwaith. Caiff tystiolaeth ei chasglu yn erbyn y meini prawf y nodir eu bod yn orfodol ar gyfer unrhyw asesiad o Ardal, sef: meini prawf A1, A3, A8, B2, B3, B4 a B8. Mae'r meini prawf sy'n weddill yn rhai dewisol a chaiff ein paramedrau risg eu defnyddio er mwyn penderfynu a ddylid casglu tystiolaeth yn eu herbyn.

Adlewyrchir Safonau Ansawdd Gwaith Achos y CPS[6] yn y fframwaith a bydd cydymffurfiaeth y CPS â'r gyfundrefn o Asesiadau Ansawdd Unigol yn rhan o'r fethodoleg arolygu os tybir ei bod yn briodol. Yn yr un modd, mae'r fframwaith wedi'i strwythuro i ystyried agweddau allweddol eraill megis Arferion Gweithredu Safonol, Trawsnewid Cyfiawnder Diannod a Rheoli Achosion yn Well.

Yn gyffredinol, mae'r arolygwyr yn edrych i weld a yw'r CPS yn sicrhau'r budd mwyaf posibl i ddefnyddwyr a rhanddeiliaid gyda'r adnoddau sydd ar gael. Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid i'r bobl gywir wneud y pethau cywir ar yr adeg gywir am y gost gywir gan gyflawni'r canlyniad cywir. Canolbwyntir ar sicrhau y cyflawnir canlyniadau llwyddiannus ac y darperir gwasanaethau o safon drwy drefniadau llywodraethu priodol, sicrhau ansawdd gwaith achos, defnyddio adnoddau yn effeithiol a phrosesau effeithlon ac effeithiol sy'n osgoi gwaith diangen, wedi'i ddyblygu neu ychwanegol.

6 *Casework Quality Standards*; CPS; Hydref 2014. www.cps.gov.uk/publications/casework_quality_standards/index.html

## Rhan A: Llywodraethu a Gwerth am Arian

> **Yr hyn a ddisgwylir o ran perfformiad**
> *Mae gan yr Ardal drefniadau llywodraethu effeithiol er mwyn sicrhau safonau uchel o ran ansawdd gwaith achos a lefelau uchel o effeithlonrwydd a gwerth am arian, a wneir drwy fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael iddi tra'n cyflawni canlyniadau llwyddiannus o ansawdd i ddefnyddwyr.*

**Meini prawf**

**1 Rheolir adnoddau (gan gynnwys costau erlyn) er mwyn sicrhau'r lefelau uchaf posibl o effeithiolrwydd a gwerth am arian. [GORFODOL]**

1.1 Caiff y gyllideb costau erlyn ei monitro'n rheolaidd fel rhan o drefniadau monitro cyllidebau'r Ardal a chyfrifir am gostau erlyn yn briodol.

1.2 Mae aelodau perthnasol o staff yn deall y ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar gostau erlyn ac yn defnyddio hyn i lywio prosesau gwneud penderfyniadau.

1.3 Caiff Achosion Costau Uchel Iawn eu nodi'n gywir, gydag achosion perthnasol yn cael eu rheoli'n briodol.

1.4 Mae rheolwyr ardal yn amlwg yn atebol am sicrhau gwerth am arian drwy well perfformiad.

1.5 Mae rheolwyr ardal yn hyrwyddo'r cysyniad o werth am arian ledled yr Ardal.

1.6 Mae systemau effeithiol ar gyfer asesu'r strwythur/lefelau staffio mwyaf priodol ledled yr Ardal, gyda gwaith yn cael ei wneud gan staff ar y lefel gywir.

1.7 Mae patrymau gweithio hyblyg staff yn gytbwys ac yn nodi gofynion craidd.

1.8 Mae cydbwysedd rhwng erlynwyr mewnol a'r defnydd o asiantau yn ddefnydd da o adnoddau.

**2 Caiff cyllideb yr Ardal ei rheoli'n systematig a'i defnyddio yn y fath fodd i gydbwyso effeithlonrwydd a chanlyniadau llwyddiannus.**

2.1 Rheolir cyllideb yr Ardal yn systematig drwy ddatganoli, gwaith monitro priodol a gwybodaeth fanwl gywir am wariant wedi'i neilltuo.

2.2 Mae prosesau dyrannu a chynllunio cyllidebol yr Ardal yn cefnogi gweithgarwch cyflawni strategol a gweithredol.

2.3 Mae gan yr Ardal system effeithiol a thryloyw o ddyrannu arian i ddeiliaid cyllidebau. Ceir terfynau dirprwyo ariannol clir a ddeëllir gan y staff.

2.4 Mae rheolwyr ardal yn effeithiol o ran negodi materion ariannol â Phencadlys y CPS a phartneriaid.

2.5 Mae'r Ardal yn rheoli'r holl asedau materol yn effeithiol.

2.6 Mae prosesau archwilio mewnol sy'n seiliedig ar ardaloedd yn gadarn a chânt eu defnyddio'n gyson.

**3 Dadansoddir data perfformiad allweddol yr Ardal yn effeithiol ac fe'u defnyddir i lywio'r broses o neilltuo adnoddau, er mwyn nodi cryfder a gwendidau'r Ardal yn fanwl ac ysgogi gwelliant. [GORFODOL]**

3.1 Caiff perfformiad ei ddadansoddi'n rheolaidd ac yn drylwyr gan dîm rheoli'r Ardal, gan ddefnyddio data perfformiad dibynadwy ac amserol a gwybodaeth berthnasol arall.

3.2 Caiff perfformiad ei feincnodi'n effeithiol ledled yr Ardal, a chydag Ardaloedd eraill, berfformiad cenedlaethol a lefelau uchelgais y CPS.

3.3 Mae gwaith dadansoddi perfformiad a meincnodi yn llywio prosesau gwneud penderfyniadau a dyrannu adnoddau, yn arwain at gymryd camau adferol lle y bo'n briodol ac yn cyfrannu at wella perfformiad.

3.4 Mae mesurau sicrhau ansawdd a monitro perfformiad yr ardal yn nodi agweddau i'w gwella ac arfer da, a rennir gyda staff ac sy'n ysgogi gwelliannau o ran y ffordd y darperir gwasanaethau.

3.5 Caiff gwybodaeth am berfformiad ei lledaenu mewn fformat hawdd ei ddeall i staff.

3.6 Caiff timau eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad.

**4 Mae'r adolygiad chwarterol o berfformiad yn rhoi darlun realistig o berfformiad yr Ardal a defnyddir adolygiadau chwarterol o berfformiad yn effeithiol i nodi methiannau ac ysgogi gwelliannau.**

4.1 Mae'r Ardal yn dangos dealltwriaeth o realiti perfformiad a'r modd y darperir gwasanaethau ar lefel weithredol.

4.2 Mae uwch reolwyr yn asesu perfformiad yn drylwyr, gan ddefnyddio gwiriadau realiti rheolaidd (megis hapsamplau, adolygiadau o achosion a fethodd a gwaith arsylwi yn y llys) er mwyn meithrin eu dealltwriaeth o lefelau cyflawni pen blaen.

4.3 Mae'r uwch dîm rheoli yn cynnal y broses adolygu perfformiad chwarterol yn drylwyr ac yn agored.

4.4 Defnyddir y broses adolygu perfformiad chwarterol er mwyn helpu i nodi mesurau effeithiol i wella perfformiad.

4.5 Cytunir ar gamau gweithredu sy'n deillio o'r adolygiad chwarterol o berfformiad a'r asesiad, fe'u cyflawnir a gwneir gwaith dilynol arnynt.

**5 Mae'r Ardal wedi ymrwymo i bolisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth, gwerthoedd y CPS a datblygiad staff er mwyn gwella effeithiolrwydd, lles a morâl staff a gweithgarwch ymgysylltu â staff.**

5.1 Mae uwch reolwyr yn gweithredu fel modelau rôl ar gyfer moeseg, gwerthoedd a nodau'r Ardal a'r CPS, ac yn dangos ymrwymiad i bolisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth.

5.2 Mae rheolwyr ardal yn cyfleu gweledigaeth, gwerthoedd a chyfeiriad y CPS yn effeithiol.

5.3 Mae'r Ardal wedi integreiddio cydraddoldeb ym mhob strategaeth a chynllun perthnasol, gan gynnwys cynllun hyfforddi'r Ardal ac mae pawb yn cael yr un cyfle i gael hyfforddiant.

5.4 Mae'r Ardal wedi rhoi cynllun ar waith i wella lefelau ymgysylltu â staff.

5.5 Pennwyd targedau ar gyfer lleihau absenoldeb oherwydd salwch a chymerwyd camau er mwyn eu cyflawni.

5.6 Mae rheolwyr ardal yn cymell staff, yn adeiladu timau effeithiol ac yn herio ymddygiad amhriodol.

5.7 Mae staff yn cael yr adnoddau a'r hyfforddiant priodol i wneud eu gwaith.

5.8 Caiff perfformiad da ei nodi a'i wobrwyo ac eir i'r afael â pherfformiad gwael yn briodol.

**6 Caiff Arferion Gweithredu Safonol, polisïau a mentrau Cenedlaethol eu rhoi ar waith yn effeithiol gan yr Ardal. Mae gwaith sicrhau ansawdd a wneir gan yr Ardal yn drylwyr a manteisir ar gyfleoedd i wella'r modd y darperir gwasanaethau.**

6.1 Caiff mentrau cenedlaethol, megis Trawsnewid Cyfiawnder Diannod a Rheoli Achosion yn Well, eu rhoi ar waith yn effeithiol gan yr Ardal.

6.2 Mae risgiau a rhyng-ddibyniaethau polisïau a mentrau cenedlaethol fel y maent yn effeithio ar yr Ardal wedi'u nodi'n gywir ac mae camau adferol wedi'u cymryd lle roedd angen gwneud hynny.

6.3 Caiff cydymffurfiaeth â mentrau Trawsnewid Cyfiawnder Diannod a Rheoli Achosion yn Well ei mesur yn gywir a chyflwynir adroddiadau trylwyr arni o fewn yr Ardal ac i Bencadlys y CPS.

6.4 Mae'r Ardal yn cydymffurfio ag Arferion Gweithredu Safonol ac mae cyfundrefn sicrhau ansawdd effeithiol i fonitro a rheoli prosesau a systemau.

6.5 Mae rheolwyr a staff yn deall sut mae mentrau a phrosesau unigol yn effeithio ar ei gilydd ac effeithlonrwydd yr Ardal a'r system cyfiawnder troseddol yn gyffredinol.

6.6 Caiff cyfrifoldebau am sicrhau ansawdd a gwelliant parhaus o fewn Arferion Gweithredu Safonol a pholisïau a mentrau cenedlaethol eu diffinio a'u pennu i'r lefel reoli briodol.

**7 Ceir sianelau cyfathrebu dwyffordd effeithiol rhwng Rheolwyr ardal a staff, a ddefnyddir i nodi cyfleoedd a manteisio i'r eithaf arnynt, gwerth am arian ac ansawdd prosesau darparu gwasanaethau.**

7.1 Mae rheolwyr ardal yn ymgysylltu'n effeithiol ac yn barhaus â staff ynglŷn â materion strategol a gweithredol.

7.2 Mae rheolwyr yn deall eu cyfrifoldebau am roi penderfyniadau uwch reolwyr ar waith.

7.3 Mae uwch reolwyr yn neilltuo amser i sicrhau eu bod ar gael i staff ar adegau allweddol yn y calendr busnes neu yn ystod prosesau newid.

7.4 Ceir deialog reolaidd ac agored drwy gyfarfodydd tîm, gyda gwybodaeth berthnasol yn cael ei bwydo'n ôl i uwch reolwyr.

**8 Mae'r Ardal yn cael dylanwad ar bartneriaid ac mae gweithio cydgysylltiedig yn effeithiol ac yn gwella canlyniadau i ddefnyddwyr. [GORFODOL]**

8.1 Mae uwch reolwyr yn hyrwyddo dull gweithredu agored ac adeiladol gyda chydweithwyr ym maes cyfiawnder troseddol.

8.2 Mae'r Ardal yn gweithio'n effeithiol gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (lle y bo'n gymwys).

8.3 Mae trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad ar y cyd gyda phartneriaid ym maes cyfiawnder troseddol, sy'n cynnwys prosesau sicrhau ansawdd cadarn.

8.4 Caiff gwybodaeth berthnasol am berfformiad, meysydd i'w gwella ac arfer da eu rhannu rhwng partneriaid yn y system cyfiawnder troseddol a'u defnyddio i nodi cryfderau a gwendidau.

8.5 Caiff strategaethau gwella ar y cyd eu rhoi ar waith a gwneir gwaith dilynol ar gamau gweithredu sy'n arwain at welliannau.

**9 Mae'r Ardal yn ymateb i grwpiau cymunedol, dioddefwyr a thystion, cwynion, rhanddeiliaid eraill a'r cyhoedd, ac yn defnyddio eu hadborth yn effeithiol i nodi cryfderau a gwendidau a gwella'r modd y darperir gwasanaethau.**

9.1 Mae uwch reolwyr yn ymrwymedig i ymgysylltu â dioddefwyr a thystion, rhanddeiliaid eraill a'r cyhoedd ac ennyn eu hyder.

9.2 Nodir anghenion dioddefwyr a thystion, cânt eu diwallu ac fe'u hymgorfforir ym musnes craidd yr Ardal.

9.3 Mae'r Ardal yn blaenoriaethu ymgysylltu â rhanddeiliaid neu grwpiau cymunedol sy'n wynebu'r risg fwyaf o allgáu cymdeithasol a gwahaniaethu.

9.4 Defnyddir cwynion, gohebiaeth ynglŷn â Hawl Dioddefwyr i Adolygiad ac adborth arall gan randdeiliaid, grwpiau cymunedol a'r cyhoedd i nodi agweddau i'w gwella.

9.5 Caiff camau gweithredu a nodwyd o adborth eu rhoi ar waith yn effeithiol a gwneir gwaith dilynol trylwyr arnynt.

9.6 Gall yr Ardal ddangos bod prosesau darparu gwasanaethau, gweithgarwch ymgysylltu neu hyder y gymuned wedi gwella o ganlyniad i gamau a gymerwyd mewn perthynas ag adborth a gafwyd.

## B: Ansawdd Gwaith Achos a Darparu Gwasanaethau i Ddefnyddwyr

**Yr hyn a ddisgwylir o ran perfformiad**
*Mae'r Ardal yn gwneud penderfyniadau cadarn, mae'n paratoi ac yn cyflwyno achosion yn effeithiol ac mae'n gwella canlyniadau ac yn darparu gwasanaeth o safon i ddefnyddwyr.*

**Meini prawf**

1 **Mae trefniadau cyhuddo'r Ardal yn effeithiol o ran rhoi cyngor ymchwiliol cynnar a phenderfyniadau cyhuddo amserol o ansawdd da i'r heddlu, ac maent yn ysgogi gwelliant o ran canlyniadau llwyddiannus.**

a Mae prosesau ar waith er mwyn sicrhau y caiff cyngor ymchwiliol cynnar a chyngor cyn cyhuddo ysgrifenedig a phenderfyniadau cyhuddo o ansawdd da eu darparu'n amserol.

b Mae'r Ardal yn rheoli ceisiadau amhriodol am gyngor neu benderfyniad cyhuddo gan yr heddlu yn effeithiol.

c Mae'r Ardal yn nodi unrhyw gryfderau a gwendidau o ran cyngor y CPS Direct ac yn ymdrin â hwy yn briodol gyda CPS Direct.

ch Mae'r Ardal yn defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol er mwyn sicrhau ei hun fod cyngor cyhuddo a phenderfyniadau cyhuddo yn effeithiol.

d Defnyddir prosesau sicrhau priodol, megis hap-samplu a'r cynllun Sicrhau Ansawdd Unigol, yn effeithiol er mwyn sicrhau ansawdd prosesau gwneud penderfyniadau ac amseroldeb a chydymffurfiaeth â Chod Erlynwyr y Goron, Safonau Ansawdd Gwaith Achos a pholisïau perthnasol.

dd Nodir agweddau i'w gwella o ddata a gwaith sicrhau ansawdd a chymerir camau adferol a gwneir gwaith dilynol arnynt, sy'n arwain at welliannau mewn perfformiad.

2 **Mae'r Ardal yn cydymffurfio â'i dyletswyddau datgelu mewn perthynas â deunydd nas defnyddiwyd. [GORFODOL]**

a Mae'r Ardal yn sicrhau bod erlynwyr yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol sy'n ymwneud â'r broses ddatgelu.

b Mae uwch arweinydd ar gyfer datgelu sy'n effeithiol o ran hyrwyddo cydymffurfiaeth a gwelliant ac sydd ar gael i roi cyngor mewn achosion cymhleth.

c Mae prosesau datgelu yn destun proses sicrhau ansawdd drylwyr a nodir agweddau i'w gwella, ac mae perfformiad yn gwella o ganlyniad i hynny.

ch Mae'r Ardal yn darparu hyfforddiant i staff ar ddatgelu gwybodaeth yn amserol ac mae perfformiad yn gwella o ganlyniad i hynny.

**3 Mae adolygiadau a phenderfyniadau gwaith achos (gan gynnwys defnyddio ceisiadau a derbyn y pledion) yn gymesur; cânt eu cofnodi'n gywir; maent yn cydymffurfio â Chod Erlynwyr y Goron ac unrhyw bolisïau a chanllawiau perthnasol; maent yn cynnwys ymgynghori â'r heddlu; ac maent yn cyfrannu at ganlyniadau boddhaol a boddhad dioddefwyr a thystion. [GORFODOL]**

a Mae'r Ardal yn sicrhau bod pob ffeil a geir gan yr heddlu yn bodloni'r Safon Genedlaethol ar gyfer Ffeiliau ac yn cyd-fynd ag egwyddorion Trawsnewid Cyfiawnder Diannod a Rheoli Achosion yn Well.

b Mae'r Ardal yn effeithiol o ran hysbysu'r heddlu pan nad yw'n cydymffurfio â Chod Erlynwyr y Goron neu Ganllawiau'r Cyfarwyddwr ar Gyhuddo.

c Mae'r Ardal yn sicrhau y cynhelir adolygiad amserol a chymesur ym mhob achos lle mae angen cynnal un.

ch Sicrheir ansawdd adolygiadau a phenderfyniadau er mwyn gwneud yn siwr eu bod yn gwneud y canlynol:

- i cydymffurfio â'r Cod ac unrhyw bolisïau neu ganllawiau perthnasol
- ii cael eu harnodi'n briodol ar y daflen cofnodi gwrandawiad neu'r ffeil ddigidol ar y system rheoli achosion
- iii cynnwys theori neu strategaeth treial o achos yr erlyniad er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd y ceir canlyniad llwyddiannus cymaint â phosibl
- iv nodi pryd y gellid gofyn am orchmynion atodol neu wybodaeth ychwanegol adeg dedfrydu neu waredu achos mewn rhyw ffordd arall, a sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i'r llys er mwyn osgoi oedi diangen.

**4 Mae'r achosion yn cael eu paratoi a'u datblygu'n effeithiol ac yn amserol. [GORFODOL]**

a Mae systemau'r Ardal yn helpu i ddatblygu achosion yn effeithiol, gan gynnwys cydymffurfio â'r Rheolau ar Weithdrefnau Troseddol ac Arferion Gweithredu Safonol.

b Mae'r Ardal yn sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn y gwrandawiad cyntaf yn llys yr ynadon yn unol ag egwyddorion Trawsnewid Cyfiawnder Diannod.

c Mae'r Ardal yn sicrhau bod achosion yn Llys y Goron yn mynd rhagddynt yn unol ag egwyddorion Rheoli Achosion yn Well.

ch Mae'r Ardal yn sicrhau bod nifer y treialon effeithiol a'r canlyniadau llwyddiannus yn cynyddu drwy baratoi a datblygu achosion yn effeithiol.

d Mae systemau ar waith er mwyn sicrhau y caiff eiriolwyr yr erlyniad eu briffio'n gywir ac yn amserol.

**5 Caiff achosion sensitif o gam-drin domestig a throseddau casineb eraill eu blaenoriaethu'n briodol ac ymdrinnir â hwy yn effeithiol er mwyn cyflawni canlyniadau llwyddiannus.**

a Mae gan yr Ardal systemau rheoli a sicrhau ansawdd effeithiol ar gyfer achosion sensitif o gam-drin domestig a throseddau casineb eraill, ac achosion cymhleth neu uchel eu proffil, er mwyn cyflawni canlyniadau llwyddiannus a darparu gwasanaeth o safon i ddioddefwyr.

b Mae'r Ardal yn bodloni ei hun yr ymdrinnir â'r achosion hyn (sensitif ac ati) yn briodol tra byddant yn mynd rhagddynt, gan gynnwys cydymffurfio â pholisïau a chanllawiau perthnasol.

c Mae prosesau sicrhau ansawdd yn nodi gwersi sydd i'w dysgu ac arfer da, nodir camau gweithredu ac mae perfformiad yn gwella o ganlyniad i hynny.

ch Mae system effeithiol ar gyfer cyfleu pwyntiau dysgu ac arfer da i staff a phartneriaid yn y system cyfiawnder.

d Mae cyfran y canlyniadau llwyddiannus mewn achosion sensitif ac ati (fel y'i mesurir gan y gyfradd gollfarnu) yn gwella.

dd Mae arweinwyr neu gydgysylltwyr effeithiol ar gyfer achosion sensitif, sydd â'r sgiliau a'r hyfforddiant angenrheidiol, yr ymgynghorir â hwy, neu sy'n ymdrin ag achosion, lle y bo'n briodol.

e Pennir achosion sy'n cynnwys trais neu droseddau rhywiol difrifol i staff arbenigol sydd â'r sgiliau a'r hyfforddiant angenrheidiol ac sy'n cydymffurfio â pholisïau a chanllawiau perthnasol.

f Mae'r Ardal wedi cymryd camau i sicrhau y caiff yr achosion hyn (sensitif ac ati) eu nodi ac y tynnir sylw atynt ar y system rheoli achosion.

**6 Sicrheir y dystiolaeth orau a chanlyniadau llwyddiannus drwy ddefnyddio tystiolaeth y cytunwyd arni yn effeithiol, rhoi rhybuddion i dystion a chyfathrebu'n gywir ac yn amserol â thystion, a thrwy ddefnyddio mesurau arbennig, cyfieithwyr a dehonglwyr, cyfryngwyr a gwysion tystio yn effeithiol lle y bo'n briodol.**

a Mae'r Ardal yn sicrhau bod penderfyniadau gwaith achos a gwaith paratoi achosion yn defnyddio tystion byw yn y treial, cyfaddefiadau o dan adran 10, a cheisiadau i dderbyn tystiolaeth, ac mae cyfran y canlyniadau llwyddiannus yn gwella o ganlyniad i hynny.

b Mae'r Ardal yn sicrhau y rhoddir sylw priodol i fesurau er mwyn galluogi dioddefwyr a thystion i roi eu tystiolaeth orau, gan gynnwys mesurau arbennig, cyfryngwyr a chyfieithwyr a dehonglwyr lle y bo'n briodol.

c Mae'r Ardal yn monitro'r defnydd o wysion tystio a gwarantau er mwyn sicrhau bod penderfyniadau ynghylch gwysion yn amserol, y cânt eu defnyddio'n gymesur a bod asesiadau risg wedi'u cynnal lle y bo'n briodol.

ch Mae prosesau'r Ardal yn sicrhau bod nifer y treialon chwâl ac aneffeithiol a'r canlyniadau aflwyddiannus sydd i'w priodoli i faterion sy'n ymwneud â thystion yn gostwng.

**7 Caiff y system rheoli achosion ac achosion electronig eu rheoli'n effeithiol er mwyn sicrhau bod cofnodion cywir o achosion (gan gynnwys tynnu sylw at achosion a chwblhau achosion) er mwyn helpu i sicrhau y caiff achosion eu datblygu'n effeithlon, cyflawni canlyniadau llwyddiannus a chynhyrchu gwybodaeth ddibynadwy am berfformiad.**

a Mae'r Ardal yn gweithio gyda'r heddlu er mwyn sicrhau yr ychwanegir ffeiliau'r heddlu at y system rheoli achosion yn amserol ac yn effeithiol.

b Mae'r Ardal yn monitro'r defnydd o'r system rheoli achosion ac yn sicrhau ansawdd y defnydd a wneir ohoni er mwyn sicrhau:
- i y caiff y system rheoli achosion ei defnyddio i gofnodi holl ddigwyddiadau achosion
- ii y caiff codau neu fflagiau monitro perthnasol, cymwys eu defnyddio'n gywir
- iii y caiff taflenni cofnodi gwrandawiad eu cwblhau'n gywir a'u lanlwytho'n brydlon
- iv y caiff llythyrau, negeseuon e-bost a dogfennau eraill eu lanlwytho i'r system rheoli achosion yn brydlon
- v y caiff achosion eu cwblhau'n briodol ac yn gywir ar y system rheoli achosion, gan gynnwys y cod rheswm.

c Defnyddir rhestrau tasgau ac adroddiadau'r system rheoli achosion yn effeithiol i reoli, monitro a gwella datblygiad achosion.

**8 Cyfathrebir â dioddefwyr o dan bob menter gymwys, Cod y Dioddefwyr neu bolisïau (gan gynnwys ymgynghori â dioddefwyr ynghylch peidio â pharhau ag achosion neu bledion, Llythyrau Cyfathrebu â'r Dioddefwr, cyfathrebu â theuluoedd mewn profedigaeth, a'r rhai sy'n ymwneud â Hawl Dioddefwyr i Adolygiad) lle y bo angen, a gwneir hynny'n amserol ac i safon uchel. [GORFODOL]**

a Ystyrir anghenion dioddefwyr a thystion yn llawn a cheir cyswllt a chymorth amserol a phriodol drwy gydol y broses erlyn.

b Mae'r Ardal yn gweithio'n agos gyda'r Uned Gofal Tystion, yr heddlu a phartneriaid eraill y system cyfiawnder troseddol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr a thystion o safon uchel.

c Mae'r ardal yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofyniad i Ymgynghori â dioddefwyr mewn achosion priodol, gan gynnwys peidio â pharhau ag achosion a derbyn pledion.

ch Mae'r Ardal yn sicrhau y caiff gohebiaeth â dioddefwyr a theuluoedd mewn profedigaeth ei hanfon lle y bo angen a'i bod o safon uchel, gyda chyfeiriadau at ffynonellau cymorth neu hawliau ychwanegol (gan gynnwys Hawl Dioddefwyr i Adolygiad) lle y bo'n briodol.

d Mae cynlluniau hyfforddi'r Ardal yn rhoi blaenoriaeth briodol i hyfforddiant ar faterion sy'n ymwneud â dioddefwyr a thystion a pholisïau a chanllawiau perthnasol.

**9 Caiff barn a buddiannau'r dioddefwr, tystion a'r cyhoedd eu hadlewyrchu a'u diogelu drwy ddefnyddio amodau remand neu fechnïaeth yn, Datganiadau Personol Dioddefwyr a gorchmynion atodol yn briodol adeg dedfrydu a thrwy reoli terfynau amser cadwraeth yn briodol, gan ddiwydrwydd dyladwy wrth ddatblygu achosion cadwraeth.**

a Mae'r Ardal yn sicrhau y caiff materion sy'n ymwneud â dioddefwyr a thystion eu hystyried ar y cam cyn cyhuddo ac y rhoddir cyfarwyddiadau clir i eiriolwyr ar gyfer pob gwrandawiad.

b Mae'r Ardal yn sicrhau bod ceisiadau i wrthod mechnïaeth, ceisio amodau mechnïaeth neu apelio yn erbyn caniatáu mechnïaeth yn briodol ac yn gymesur, a'u bod yn effeithiol o ran diogelu'r dioddefwr a'r cyhoedd.

c Mae'r Ardal yn sicrhau bod y dioddefwr wedi cael cyfle i wneud Datganiad Personol Dioddefwr mewn achosion cymwys, a bod erlynwyr wedi cymryd y camau angenrheidiol i'w gyflwyno i'r llys fel mae'r dioddefwr yn dewis iddo gael ei gyflwyno, hyd y gellir.

ch Mae prosesau'r Ardal yn sicrhau y ceisir y gorchmynion atodol cywir adeg dedfrydu neu waredu achos mewn rhyw ffordd arall er mwyn diogelu'r dioddefwr, tystion neu'r cyhoedd.

d Mae gan yr Ardal system effeithiol ar gyfer monitro terfynau amser cadwraeth.

**10 Adlewyrchir hawliau diffynyddion mewn prosesau gwneud penderfyniadau a chaiff prosesau rheoli achosion ac erlyniadau eu cynnal yn gadarn ac yn deg.**

a Mae'r Ardal yn sicrhau bod penderfyniadau cyhuddo a phenderfyniad i beidio â pharhau ag achos yn cydymffurfio â Chod Erlynwyr y Goron a bod penderfyniadau i beidio â pharhau ag achos yn cael eu gwneud a'u rhoi ar waith yn amserol.

b Mae'r Ardal yn sicrhau bod ceisiadau i remandio diffynnydd yn y ddalfa neu geisio gosod amodau mechnïaeth ar fechnïaeth diffynnydd ond yn cael eu gwneud pan fydd angen gwneud hynny ac yn unol â darpariaethau statudol.

c Mae prosesau'r Ardal yn sicrhau y caiff achosion cadwraeth eu blaenoriaethu.

ch Mae'r Ardal yn sicrhau bod anghenion diffynyddion ifanc neu ddiffynyddion sy'n agored i niwed yn cael eu hadlewyrchu'n briodol mewn prosesau gwneud penderfyniadau a'r gwaith o baratoi a datblygu achosion.

**11 Cyn ac yn y llys, mae erlynwyr ac eiriolwyr yn ymgysylltu'n effeithiol â'r amddiffyniad er mwyn sicrhau y caiff achosion eu datblygu'n effeithiol ac osgoi gwrandawiadau aneffeithiol neu dreialon chwâl.**

a Mae prosesau'r Ardal yn sicrhau yr ymgysylltir yn amserol â'r amddiffyniad mewn achosion sy'n gysylltiedig â menter Trawsnewid Cyfiawnder Diannod.

b Mae'r Ardal yn sicrhau y caiff problemau sy'n ymwneud â rheoli achosion eu datrys rhwng y partïon yn y gwrandawiad cyntaf.

c Mae'r Ardal yn sicrhau bod unrhyw gyfathrebu â'r amddiffyniad yn agored, yn deg, yn gadarn ac yn amserol.

ch Mae staff yr Ardal yn monitro achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth gan yr amddiffyniad â'r Rheolau ar Weithdrefnau Troseddol a chyfarwyddiadau neu orchmynion llys ac yn cyfeirio at lefel uwch lle y bo'n briodol.

**12 Mae eiriolwyr wedi'u paratoi'n dda, yn dangos sgiliau eirioli o safon uchel, yn rhagweithiol wrth ddatblygu achosion ac yn cyfrannu'n effeithiol ar waredu achosion mewn ffordd gyfiawn, amserol a chymesur.**

a Mae'r Ardal yn sicrhau bod eiriolwyr yn datblygu achosion yn effeithiol ac yn chwarae eu rhan yn y broses o sicrhau canlyniad llwyddiannus.

b Mae'r Ardal yn gweithredu'r Safonau Eiriolaeth Cenedlaethol a pholisïau cenedlaethol eraill ar eiriolaeth.

c Mae'r Ardal yn monitro perfformiad o ran eiriolaeth a datblygu achosion yn systematig ac yn rhoi adborth, gan ledaenu gwersi a ddysgwyd ac arfer da.

ch Mae'r Ardal yn sicrhau bod eiriolwyr yn y llys yn cofnodi pob penderfyniad a mater sy'n ymwneud â'r achos yn gywir.

d Mae'r Ardal yn rhoi digon o amser i eiriolwyr adolygu a pharatoi achosion ar gyfer y llys.

dd Mae'r Ardal yn darparu'r adnoddau, yr hyfforddiant a'r canllawiau angenrheidiol i eiriolwyr, gan gynnwys cymorth paragyfreithiol yn y llys lle y bo'n briodol, er mwyn helpu eiriolwyr i ddatblygu a chyflwyno achosion i safon uchel.

**13 Mae'r Ardal yn rhoi gofal o safon uchel i ddioddefwyr a thystion yn y llys.**

a Mae systemau, prosesau a hyfforddiant yr Ardal yn rhoi digon o amser a sgiliau i alluogi eiriolwyr i gydymffurfio â chanllawiau ar siarad â thystion yn y llys.

b Mae'r Ardal yn sicrhau bod eiriolwyr yn herio gofynion tystion yr amddiffyniad yn gadarn.

c Mae'r Ardal yn sicrhau, mewn achosion perthnasol, fod eiriolwyr yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer Llythyrau Cyfathrebu â'r Dioddefwr i'r Uned Cyswllt Dioddefwyr yn gywir ac yn brydlon.

ch Mae'r Ardal yn ymgysylltu'n effeithiol ag Unedau Gofal Tystion, asiantaethau cymorth i ddioddefwyr a thystion a phartneriaid eraill yn y system cyfiawnder troseddol, er mwyn gwella'r gofal a roddir i ddioddefwyr a thystion yn y llys.

# C Cyfansoddiad y sampl o ffeiliau a chanfyddiadau'r archwiliad

| Cwestiwn | Ateb | |
|---|---|---|
| **Penderfyniad cyn cyhuddo gan yr heddlu** | | |
| Roedd penderfyniad yr heddlu i gyhuddo yn cydymffurfio â Chod Erlynwyr y Goron | Oedd | 96.2% |
| | Nac oedd | 3.8% |
| Roedd penderfyniad yr heddlu i gyhuddo yn cydymffurfio â Chanllawiau'r Cyfarwyddwr | Oedd | 73.1% |
| | Nac oedd | 26.9% |
| **Penderfyniad cyn cyhuddo gan y CPS** | | |
| Roedd penderfyniad y CPS i gyhuddo yn cydymffurfio â Chod Erlynwyr y Goron | Oedd | 94.7% |
| | Nac oedd | 5.3% |
| Roedd yr MG3 yn cynnwys dadansoddiad priodol o'r achos a strategaeth yr achos | Cyflawnwyd yn llawn | 29.8% |
| | Cyflawnwyd yn rhannol | 58.5% |
| | Heb ei gyflawni | 11.7% |
| Ymdriniwyd â materion dioddefwyr yn briodol yn yr MG3 | Cyflawnwyd yn llawn | 60.0% |
| | Cyflawnwyd yn rhannol | 29.4% |
| | Heb ei gyflawni | 10.6% |
| Graddiwch ansawdd cyffredinol yr MG3 | Ardderchog | 1.1% |
| | Da | 37.2% |
| | Gweddol | 40.4% |
| | Gwael | 21.3% |
| **Cydymffurfiaeth codau ar ôl cyhuddo** | | |
| Roedd pob penderfyniad cod yn cydymffurfio â Chod Erlynwyr y Goron | Oedd | 95.8% |
| | Nac oedd | 4.2% |

| Cwestiwn | Ateb | |
|---|---|---|
| **Ffeiliau achos digidol** | | |
| Roedd y defnydd o'r system rheoli achosion, arnodiadau ar ffeiliau a phrosesau cadw ffeiliau yn foddhaol | Cyflawnwyd yn llawn | 21.7% |
| | Cyflawnwyd yn rhannol | 65.8% |
| | Heb ei gyflawni | 12.5% |
| **Adolygiad cychwynnol o'r achos a pharatoi ar gyfer y gwrandawiad cyntaf** | | |
| Bu'r achos yn destun adolygiad cychwynnol priodol a chymesur lle roedd yn briodol | Cyflawnwyd yn llawn | 38.8% |
| | Cyflawnwyd yn rhannol | 23.5% |
| | Heb ei gyflawni | 12.9% |
| | Ni chynhaliwyd yr un adolygiad | 24.7% |
| Roedd y gwrandawiad cyntaf yn effeithiol, roedd yn cydymffurfio â mentrau Trawsnewid Cyfiawnder Diannod/Rheoli Achosion yn Well (lle roedd yn briodol) a datryswyd pob mater a oedd heb ei ddatrys | Roedd/Do | 75.8% |
| | Nac oedd/Naddo | 14.2% |
| | Ddim yn gymwys | 10.0% |
| Cafodd unrhyw broblemau gydag effeithiolrwydd y gwrandawiad cyntaf eu hachosi'n bennaf gan | Yr Heddlu | 53.3% |
| | CPS | 30.0% |
| | Y Llys | 6.7% |
| | Yr Amddiffyniad | 10.0% |
| **Datblygiad yr achos ar ôl y gwrandawiad cyntaf** | | |
| Cynhaliwyd y treial yn llys yr ynadon neu Lys y Goron ar ôl i'r achos gael ei restru'n gyntaf ar gyfer treial | Do | 76.7% |
| | Naddo | 23.3% |

| Cwestiwn | Ateb | |
|---|---|---|
| Luniodd y cyfreithiwr neu'r tîm farn ddoeth ar yr achos a gwnaethant gadw gafael arno | Cyflawnwyd yn llawn | 31.5% |
| | Cyflawnwyd yn rhannol | 51.9% |
| | Heb ei gyflawni | 16.7% |
| Cydymffurfiwyd yn amserol â chyfarwyddiadau llys neu orchmynion barnwyr | Cyflawnwyd yn llawn | 37.6% |
| | Cyflawnwyd yn rhannol | 30.6% |
| | Heb ei gyflawni | 31.8% |
| Tra bod yr achos yn mynd rhagddo cydymffurfiwyd â pholisi perthnasol y CPS ar gyfer y math o achos sensitif neu arbenigol dan sylw | Cyflawnwyd yn llawn | 54.8% |
| | Cyflawnwyd yn rhannol | 29.0% |
| | Heb ei gyflawni | 16.1% |
| **Datgelu** | | |
| Yn gyffredinol, roedd y ffordd yr ymdriniodd y CPS â deunydd nas defnyddiwyd yn | Ardderchog | 0% |
| | Da | 36.2% |
| | Gweddol | 45.7% |
| | Gwael | 18.1% |
| **Dioddefwyr a Thystion** | | |
| Cydymffurfiwyd â Chod y Dioddefwyr, Addewid yr Erlynwyr ac unrhyw ganllawiau polisi eraill ar drin tystion | Cyflawnwyd yn llawn | 53.8% |
| | Cyflawnwyd yn rhannol | 35.8% |
| | Heb ei gyflawni | 10.4% |

| Cwestiwn | Ateb | |
|---|---|---|
| Anfonwyd Llythyr Cyfathrebu â'r Dioddefwr yn amserol pan oedd angen gwneud hynny | Do | 50.0% |
| | Naddo | 4.5% |
| | Nid anfonwyd yr un llythyr | 45.5% |
| Roedd y Llythyr Cyfathrebu â'r Dioddefwr o safon uchel | Cyflawnwyd yn llawn | 50.0% |
| | Cyflawnwyd yn rhannol | 25.0% |
| | Heb ei gyflawni | 25.0% |
| **Ansawdd gwasanaeth yr heddlu** | | |
| Roedd ansawdd cyffredinol y gwasanaeth gan yr heddlu yn | Ardderchog | 0% |
| | Da | 44.2% |
| | Gweddol | 27.5% |
| | Gwael | 28.3% |

# CH Dangosyddion Perfformiad Allweddol

| Canlyniadau | Cenedlaethol | | | | | Cymru | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 to Rhag 15 | Amrywiad 2012-13 to Rhag 15 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 to Rhag 15 | Amrywiad 2012-13 to Rhag 15 |
| **Llys ynadon** | | | | | | | | | | |
| Canlyniadau llwyddiannus | 86.2% | 85.6% | 84.2% | 83.8% | – | 88.3% | 88.0% | 87.6% | 87.2% | – |
| Dirwyn i ben | 9.7% | 9.8% | 10.5% | 10.4% | – | 8.6% | 8.9% | 9.0% | 9.2% | – |
| **Llys y Goron** | | | | | | | | | | |
| Canlyniadau llwyddiannus | 80.6% | 81.0% | 79.4% | 79.1% | – | 82.6% | 83.3% | 79.9% | 79.9% | – |
| Rhyddfarnau dan orchymyn barnwr | 11.6% | 11.5% | 12.5% | 12.3% | – | 9.6% | 9.7% | 12.9% | 12.2% | – |
| **Nifer y cyhuddiadau** | | | | | | | | | | |
| Nifer y penderfyniadau cyn cyhuddo | 299,345 | 298,077 | 307,037 | 287,313 | -4.0% | 19,421 | 19,309 | 19,152 | 18,580 | -4.3% |
| *Llys ynadon* | | | | | | | | | | |
| Pledion euog | 71.7% | 71.8% | 71.2% | 71.0% | – | 75.4% | 75.3% | 74.1% | 74.1% | – |
| Athreuliad | 22.0% | 21.6% | 22.4% | 22.1% | – | 18.8% | 18.9% | 20.9% | 20.2% | – |
| *Llys y Goron* | | | | | | | | | | |
| Pledion euog | 71.8% | 72.8% | 71.9% | 71.3% | – | 75.1% | 77.2% | 74.1% | 73.8% | – |
| Athreuliad | 19.3% | 18.8% | 20.5% | 20.7% | – | 17.3% | 16.9% | 20.3% | 20.2% | – |

| Newidiadau o ran staff a llwyth achosion | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | % newid rhwng 2013-14 a 2014-15 | 2015-16 to Rhag 15 | % newid rhwng 2014-15 a Rhag 15 | newid cyfartalog dros 2 flynedd rhwng 2013-14 a Rhag 15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ardaloedd a CPS Direct ynghyd ag Elw Troseddau** | | | | | | | |
| Staff mewn swydd | 5,807 | 5,285 | 4,984 | -5.7% | 4,679 | -6.1% | -11.5% |
| Erlynwyr mewn swydd | 2,605 | 2,375 | 2,240 | -5.7% | 2,140 | -4.5% | -9.9% |
| Gweinyddwyr mewn swydd | 3,202 | 2,910 | 2,744 | -5.7% | 2,539 | -7.5% | -12.7% |
| ***Llys ynadon*** | | | | | | | |
| Achosion a gwblhawyd | 700,423 | 633,306 | 557,887 | -11.9% | 539,724 | -3.3% | -14.8% |
| Achosion a ymladdwyd* | 53,488 | 53,770 | 54,167 | 0.74% | 59,567 | 10.0% | 10.8% |
| Achosion a ymladdwyd fel cyfran o'r achosion a gwblhawyd | 7.6% | 8.5% | 9.7% | 1.2 | 11.0% | 1.3 | 2.5 |
| *Achosion a ymladdwyd a arweiniodd at gollfarn* | 34,473 | 33,805 | 33,075 | -2.2% | 36,944 | 11.7% | 9.3% |
| Cyfran yr achosion a ymladdwyd a arweiniodd at gollfarn | 64.4% | 62.9% | 61.1% | -1.8 | 62.0% | 1.0 | -0.8 |
| Achosion a ymladdwyd fesul erlynydd** | 20.5 | 22.6 | 24.2 | – | 27.8 | – | – |
| ***Llys y Goron*** | | | | | | | |
| Achosion a gwblhawyd | 95,862 | 93,446 | 98,505 | 5.4% | 97,942 | -0.6% | 4.8% |
| Achosion a ymladdwyd* | 17,604 | 16,102 | 16,847 | 4.6% | 17,564 | 4.3% | 9.1% |
| Achosion a ymladdwyd fel cyfran o'r achosion a gwblhawyd | 18.4% | 17.2% | 17.1% | -0.1 | 17.9% | 0.8 | 0.7 |
| *Achosion a ymladdwyd a arweiniodd at gollfarn* | 10,553 | 9,627 | 9,568 | -0.6% | 9,965 | 4.1% | 3.5% |
| Cyfran yr achosion a ymladdwyd a arweiniodd at gollfarn | 59.9% | 59.8% | 56.8% | -3.0 | 56.7% | -0.1 | -3.1 |
| Achosion a ymladdwyd fesul erlynydd** | 6.8 | 6.8 | 7.5 | – | 8.2 | – | – |

* Mae'n cynnwys pledion cymysg

** Nid yw'n cynnwys Prif Erlynydd y Goron nac uwch aelodau o staff

| Newidiadau o ran staff a llwyth achosion | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | % newid rhwng 2013-14 a 2014-15 | 2015-16 to Rhag 15 | % newid rhwng 2014-15 a Rhag 15 | newid cyfartalog dros 2 flynedd rhwng 2013-14 a Rhag 15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | | | | | | | |
| Staff mewn swydd | 354.0 | 307.0 | 276.0 | -10.1% | 259.0 | -6.2% | -15.6% |
| Erlynwyr mewn swydd | 155.0 | 132.0 | 121.0 | -8.3% | 112.0 | -7.4% | -15.2% |
| Gweinyddwyr mewn swydd | 199.0 | 175.0 | 155.0 | -11.4% | 147.0 | -5.2% | -16.0% |
| ***Llys ynadon*** | | | | | | | |
| Achosion a gwblhawyd | 47,236 | 46,200 | 42,545 | -7.9% | 39,615 | -6.9% | -14.3% |
| Achosion a ymladdwyd* | 2,781 | 2,748 | 2,655 | -3.4% | 2,756 | 3.8% | 0.3% |
| Achosion a ymladdwyd fel cyfran o'r achosion a gwblhawyd | 5.9% | 5.9% | 6.2% | 0.3 | 7.0% | 0.7 | 1.0 |
| *Achosion a ymladdwyd a arweiniodd at gollfarn* | 1,703 | 1,735 | 1,563 | -9.9% | 1,641 | 5.0% | -5.4% |
| Cyfran yr achosion a ymladdwyd a arweiniodd at gollfarn | 61.2% | 63.1% | 58.9% | -4.3 | 59.5% | 0.7 | -3.6 |
| Achosion a ymladdwyd fesul erlynydd** | 18.0 | 20.8 | 21.9 | – | 24.6 | – | – |
| ***Llys y Goron*** | | | | | | | |
| Achosion a gwblhawyd | 5,519 | 5,612 | 5,912 | 5.3% | 5,866 | -0.8% | 4.5% |
| Achosion a ymladdwyd* | 951 | 803 | 816 | 1.6% | 868 | 6.4% | 8.1% |
| Achosion a ymladdwyd fel cyfran o'r achosion a gwblhawyd | 17.2% | 14.3% | 13.8% | -0.5 | 14.8% | 1.0 | 0.5 |
| *Achosion a ymladdwyd a arweiniodd at gollfarn* | 538 | 433 | 406 | -6.2% | 426 | 4.9% | -1.6% |
| Cyfran yr achosion a ymladdwyd a arweiniodd at gollfarn | 56.6% | 53.9% | 49.8% | -4.2 | 49.1% | -0.7 | -4.8 |
| Achosion a ymladdwyd fesul erlynydd** | 6.1 | 6.1 | 6.7 | – | 7.8 | – | – |

* Mae'n cynnwys pledion cymysg

** Nid yw'n cynnwys Prif Erlynydd y Goron nac uwch aelodau o staff

| | Cenedlaethol | | | | | Cymru | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 a Rhag 15 | Gwelliant/ dirywiad rhwng 2014-15 a Rhag 15 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 a Rhag 15 | Gwelliant/ dirywiad rhwng 2014-15 a Rhag 15 | Cymhariaeth â'r cyfartaledd cenedlaethol rhwng 2014-15 a Rhag 15 |
| **Effeithlonrwydd** | | | | | | | | | | | |
| Achosion a gwblhawyd fesul gweinyddwr (CALI) | 248.7 | 249.7 | 239.2 | 251.1 | ↑ | 265.1 | 296.1 | 312.6 | 309.4 | ↓ | > |
| Achosion a gwblhawyd fesul erlynydd (CALI) | 305.7 | 306.0 | 293.0 | 298.0 | ↑ | 340.4 | 392.5 | 400.5 | 406.1 | ↑ | > |
| Sesiynau mewnol yn y llysoedd ynadon | 80.0% | 74.4% | 72.4% | 71.2% | ↓ | 91.9% | 79.7% | 81.5% | 78.5% | ↓ | > |
| Sesiynau erlynwyr cyswllt yn y llysoedd ynadon | 31.9% | 28.8% | 27.0% | 24.1% | ↓ | 35.6% | 35.3% | 34.8% | 30.2% | ↓ | > |
| Achosion y rhoddwyd y gorau iddynt yn y 3ydd gwrandawiad neu mewn gwrandawiad dilynol (llysoedd ynadon) | 37.9% | 35.8% | 34.1% | 31.0% | ↑ | 33.2% | 25.3% | 25.7% | 20.7% | ↑ | > |
| Nifer gyfartalog y sesiynau fesul erlynydd cyswllt yr wythnos | 5.42 | 5.25 | 5.59 | 5.84 | ↑ | 5.39 | 5.28 | 5.74 | 6.16 | ↑ | > |
| Gwrandawiadau fesul achos yn y llysoedd ynadon (ple euog) | 1.93 | 1.91 | 1.94 | 1.91 | ↑ | 1.87 | 1.74 | 1.71 | 1.67 | ↑ | > |
| Gwrandawiadau fesul achos yn Llys y Goron (ple euog) | 3.52 | 3.58 | 3.84 | 3.98 | ↓ | 3.30 | 3.42 | 3.59 | 3.60 | ↓ | > |
| Canran y pledion euog yn y llysoedd ynadon yn y gwrandawiad cyntaf | 67.0% | 68.1% | 70.6% | 70.4% | ↓ | 68.0% | 71.1% | 74.3% | 74.9% | ↑ | > |
| Canran y pledion euog yn Llys y Goron yn y gwrandawiad cyntaf | 38.8% | 35.8% | – | – | – | 39.9% | 34.9% | – | – | – | – |
| Canran y pledion euog yn Llys y Goron yn y gwrandawiad cyntaf, yr ail wrandawiad neu'r trydydd gwrandawiad cyn gwrandawiad ple a rheoli achos (PCMH) | – | – | 34.5% | 33.9% | ↓ | – | – | 39.1% | 38.3% | ↓ | > |
| Arbedion y CPS fesul Eiriolwr y Goron | £55,404 | £61,936 | £65,389 | £67,056 | ↑ | £55,078 | £65,371 | £83,701 | £83,280 | ↓ | > |

| | Cenedlaethol | | | | | Cymru | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 a Rhag 15 | Gwelliant/ dirywiad rhwng 2014-15 a Rhag 15 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 a Rhag 15 | Gwelliant/ dirywiad rhwng 2014-15 a Rhag 15 | Cymhariaeth â'r cyfartaledd cenedlaethol rhwng 2014-15 a Rhag 15 |
| **Cost** | | | | | | | | | | | |
| Cost erlyn fesul diffynnydd (Llys y Goron) | £1,027 | £1,044 | £1,080 | £1,121 | ↓ | £876 | £846 | £812 | £875 | ↓ | › |
| Cyfanswm y gwariant fesul achos a gwblhawyd | £516 | £536 | £587 | £602 | ↓ | £422 | £390 | £393 | £430 | ↓ | › |
| Cyfanswm y gwariant fesul cyfanswm y staff (CALI) | £70,689 | £73,682 | £77,399 | £82,035 | ↓ | £62,889 | £65,865 | £69,050 | £75,579 | ↓ | › |
| **Ansawdd** | | | | | | | | | | | |
| Canlyniadau llwyddiannus yn y llysoedd ynadon | 86.2% | 85.6% | 84.2% | 83.8% | ↓ | 88.3% | 88.0% | 87.6% | 87.2% | ↓ | › |
| Canlyniadau llwyddiannus yn Llys y Goron | 80.6% | 81.0% | 79.4% | 79.1% | ↓ | 82.6% | 83.3% | 79.9% | 79.9% | ↔ | › |
| Achosion a gafodd eu dirwyn i ben yn y llysoedd ynadon | 9.7% | 9.8% | 10.5% | 10.4% | ↑ | 8.6% | 8.9% | 9.0% | 9.2% | ↓ | › |
| Rhyddfarnau dan orchymyn barnwr yn Llys y Goron | 11.6% | 11.5% | 12.5% | 12.3% | ↑ | 9.6% | 9.7% | 12.9% | 12.2% | ↑ | › |

CALI Cyfwerth ag amser llawn

PCMH Gwrandawiad ple a rheoli achos

↑ Gwelliant

↓ Dirywiad

↔ Newid bach iawn/dim newid

› Yn well o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol

# D Crynodeb o ganlyniadau'r arolwg staff a gynhaliwyd gan HMCPSI

Ymatebodd 70 o staff CPS Cymru i'r arolwg.

| Cwestiwn | Cytuno'n gryf/Cytuno | Ymatebwyr | Cyfradd ymatebion cadarnhaol (%) |
|---|---|---|---|
| Mae mentrau newydd yn cael eu gweithredu'n dda yn fy Ardal, yn fy marn i | 41 | 70 | 58.6% |
| Mae mentrau newydd yn cael eu gweithredu'n dda yn fy nhîm, yn fy marn i | 48 | 70 | 68.6% |
| Mae menter Trawsnewid Cyfiawnder Diannod yn gweithio'n dda yn fy Ardal | 40 | 70 | 57.1% |
| Mae menter Rheoli Achosion yn Well yn gweithio'n dda yn fy Ardal | 37 | 67 | 55.2% |
| Mae uwch reolwyr yn rhoi arweiniad effeithiol yn fy Ardal | 41 | 70 | 58.6% |
| Mae'r Ardal yn dylanwadu ar asiantaethau partner | 34 | 69 | 49.3% |
| Mae rheolwyr yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu'n effeithiol â staff | 43 | 70 | 61.4% |
| Rwy'n deall sut mae fy Ardal/tîm yn perfformio o gymharu ag Ardaloedd a thimau eraill | 54 | 69 | 78.3% |
| Mae'r llwyth gwaith wedi'i rannu'n deg rhwng timau yn yr Ardal | 33 | 69 | 47.8% |
| Rheolir perfformiad gwael yn effeithiol yn fy Ardal | 20 | 70 | 28.6% |
| Caf adborth rheolaidd ac adeiladol ar fy mherfformiad | 48 | 69 | 69.6% |
| Mae'r adborth a gaf yn fy helpu i wella fy mherfformiad | 48 | 70 | 68.6% |
| Mae gennyf dargedau ac amcanion gwaith clir | 58 | 70 | 82.9% |
| Mae gennyf yr adnoddau sydd eu hangen arnaf i wneud fy ngwaith yn effeithiol | 41 | 69 | 59.4% |
| Mae gennyf lwyth gwaith derbyniol | 40 | 70 | 57.1% |
| Mae gennyf ddigon o amser i gwblhau fy ngwaith | 36 | 70 | 51.4% |

| Cwestiwn | Cytuno'n gryf/Cytuno | Ymatebwyr | Cyfradd ymatebion cadarnhaol (%) |
|---|---|---|---|
| Rwy'n cael fy ysgogi i wneud fy ngwaith yn dda | 54 | 70 | 77.1% |
| Mae fy Ardal yn darparu gwasanaeth da i ddioddefwyr a thystion, yn fy marn i | 46 | 70 | 65.7% |
| Mae achosion yn cael eu datblygu'n effeithiol ac yn amserol yn fy Ardal | 36 | 70 | 51.4% |
| Mae'r Ardal yn blaenoriaethu achosion sensitif (cam-drin domestig ac achosion eraill sy'n gysylltiedig â throseddau casineb) yn briodol | 48 | 70 | 68.6% |

Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM
Swyddfa Llundain:
One Kemble Street
London WC2B 4TS
Ffôn. 020 7210 1187
Ffacs. 020 7210 1186

Swyddfa Caerefrog:
Foss House, Kings Pool
1-2 Peasholme Green
York, North Yorkshire, YO1 7PX
Ffôn. 01904 54 5490
Ffacs. 01904 54 5492

© Hawlfraint y Goron 2016

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i
www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/
neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU,
neu e-bostiwch:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Mae'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn hefyd ar gael ar ein gwefan yn
www.justiceinspectorates.gov.uk/hmcpsi